Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Mai 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCydraddoldeb**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Mai 2022

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ........ 5**

**Argymhellion ........ 7**

**1. Cyflwyniad ........ 11**

Cefndir ........ 11

Casglu tystiolaeth ........ 11

Cylch gorchwyl ........ 12

**2. Tlodi tanwydd ar hyn o bryd ........ 13**

Costau byw cynyddol ........ 13

Diffiniadau o dlodi tanwydd ........ 14

Rhyddhad i'r rhai sydd mewn angen dybryd ........ 15

Ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ........ 16

Ein barn ni ........ 17

Tlodi Tanwydd: Prif ffigurau ........ 20

**3. Dysgu gwersi'r rhaglen bresennol ........ 21**

Y Rhaglen Cartrefi Clyd: Nyth ac Arbed ........ 21

Adroddiad Archwilio Cymru ........ 22

Amcanion, graddfa a thuedd ........ 23

Tabl 1: Meini prawf cymhwysedd ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd ........ 26

Meini prawf cymhwysedd ar gyfer Nyth ac Arbed ........ 27

Tystysgrifau Perfformiad Ynni ........ 29

Barn Llywodraeth Cymru ........ 30

Ein barn ni ........ 31

**4. Gwella rheolaeth a chyflwyniad y Rhaglen Cartrefi Clyd ........ 34**

Arbed a dull seiliedig ar ardal ........ 34

Rôl awdurdodau lleol ........ 35

Cydweithio a phartneriaeth ... 36

Brand y gellir ymddiried ynddo? ... 37

Materion o ran contract a chaffael ... 37

Hygyrchedd a rhwystrau mynediad ... 38

Barn Llywodraeth Cymru ... 40

Ein barn ni ... 40

**5. Datgarboneiddio a chynlluniau yn y dyfodol ... 44**

Datgarboneiddio tai ... 44

Datgarboneiddio tai ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ... 46

Ymagwedd 'ffabrig yn gyntaf' ... 46

Datgarboneiddio neu drechu tlodi tanwydd ... 47

Sgiliau a'r gweithlu ... 48

Cyllid ac ardollau amgylcheddol ... 49

Ein barn ni ... 51

**6. Yr heriau mewn ardaloedd gwledig a'r sector rhentu preifat ... 53**

Yr her mewn ardaloedd gwledig ... 53

Tlodi Tanwydd fesul Awdurdod Lleol yng Nghymru, 2018 ... 54

Y sector rhentu preifat ... 55

Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ... 57

Barn Llywodraeth Cymru ... 58

Ein barn ni ... 58

**Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ... 61**

**Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ... 63**

# Rhagair y Cadeirydd

Dylai byw mewn cartref cynnes a diogel fod yn hawl ddynol gyffredinol.

Cymru sydd â'r stoc dai hynaf yn y DU. Nid yw’r rhan fwyaf o gartrefi wedi eu hinsiwleiddio’n ddigonol, ac maent yn costio swm anghymesur i’w gwresogi ac yn rhyddhau gormod o allyriadau carbon.

Nod Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 oedd gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi a dileu tlodi tanwydd. Dros ugain mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn bell o gyflawni'r nod hwn.

Mae cyfuniad o bolisïau diffygiol, rheoleiddio annigonol, a chythrwfl mewn marchnadoedd ynni byd-eang yn golygu ein bod yn symud yn y cyfeiriad anghywir. Roedd yr angen i ddatgarboneiddio stoc dai Cymru mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd eisoes yn galw am weithredu brys gan y llywodraeth. Ynghanol storm berffaith sy’n cynnwys cynnydd yn y prisiau ynni, cyflogau disymud, a phwysau ar safonau byw, disgwylir i gyfran enfawr o aelwydydd yng Nghymru, 45 y cant, fod mewn tlodi tanwydd yn 2022. Mae angen gweithredu ar frys gan y llywodraeth ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen.

Dylai sefyllfa lle mae cynifer o deuluoedd yn wynebu dewis rhwng gwresogi eu cartrefi neu fwyta fod yn annerbyniol i unrhyw un sy'n byw yn y chweched economi gyfoethocaf yn y byd. Yn y tymor byr, mae angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wneud rhagor i liniaru effeithiau gwaethaf y cynnydd mewn prisiau ynni i bobl sy'n agored i niwed ar y lefelau incwm isaf os ydym am osgoi cynnydd aruthrol yn nifer y marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf.

Mae’r atebion ar gyfer y tymor hwy yn glir: lliniaru effaith unrhyw gynnydd mewn pris tanwyddau ffosil gyda chyfuniad o fesurau effeithlonrwydd ynni a chyflymu’r broses o bontio i ffynonellau ynni cynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ddysgu gwersi'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol wrth baratoi ar gyfer ei holynydd. Gan ddefnyddio adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 fel man cychwyn, dangosodd ein tystiolaeth gan randdeiliaid nifer o ddiffygion gyda'r Rhaglen; roedd ei graddfa, maint a phwrpas wedi methu â chyfateb i lefel yr angen yn ein cymunedau. At hynny, roedd ei hamcanion craidd i fynd i’r afael â thlodi tanwydd yn cael eu tanseilio’n ddifrifol - os nad yn angheuol - gan agweddau ar ddyluniad y Rhaglen a’r ffordd y cafodd ei chyflwyno.

Rhaid i'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf fynd i'r afael â'r diffygion hyn er mwyn pontio i garbon sero net mewn ffordd sy'n deg, effeithiol a chyfiawn. Bydd angen i'r Rhaglen olynol dargedu'n benodol y rhai sydd wedi cael eu "gadael ar ôl" yn y sector rhentu preifat, ac eiddo hŷn sy’n "anoddach i'w trin" oddi ar y grid mewn ardaloedd gwledig.

Rydym yn hyderus y bydd Rhaglen sydd wedi'i chynllunio'n well ac sydd â digon o adnoddau yn gallu cyflawni'r nod o ddileu tlodi tanwydd a lliniaru anghydraddoldebau annerbyniol.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys staff Archwilio Cymru a llawer o arbenigwyr eraill yr oedd eu holl waith dros y blynyddoedd ynghylch tlodi tanwydd mor hanfodol wrth lywio ein ffordd o feddwl.

**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o’r cymorth a gynigir i aelwydydd incwm isel drwy’r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf cyn hydref 2022. Dylai’r adolygiad hwn bennu a ellir gwneud gwelliannau wrth dargedu cymorth drwy:

- asesu cyfraddau manteisio yn ôl ardal awdurdod lleol;
- asesu effeithiolrwydd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth; ac
- ystyried a oes angen rhagor o waith allgymorth i gefnogi’n rhagweithiol y grwpiau sy’n fwy anodd eu cyrraedd a grwpiau sy’n agored i niwed. ......................... Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei hadolygiad o’r camau blaenoriaeth yn y Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd gyda’r bwriad o nodi camau neu fesurau ar unwaith ac yn y byrdymor y gallai’r llywodraeth eu cymryd i gefnogi teuluoedd sy’n cael trafferth gyda thlodi tanwydd a phennu targedau interim.......................................................................................... Tudalen 18

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda’r Panel Cynghori ar Dlodi Tanwydd i nodi camau neu fesurau ar unwaith ac yn y byrdymor y gallai’r llywodraeth eu cymryd i gefnogi teuluoedd mewn tlodi tanwydd. Dylai hyn gynnwys ystyried cyfleoedd i wneud y mwyaf o fanteision y toriad diweddar mewn TAW i ddeunyddiau arbed ynni ac inswleiddio. ...... Tudalen 18

**Argymhelliad 4.** Yn yr iteriad nesaf o’r Rhaglen Cartrefi Clyd, dylai Llywodraeth Cymru gael gwared ar y cap ar gyfer ceisiadau sengl a dylunio dull mwy deallus o gyfyngu ar gostau na’r cap mympwyol presennol ar grantiau. ........................................................................................ Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Yn yr iteriad nesaf o’r Rhaglen Cartrefi Clyd, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu meini prawf cymhwysedd craffach, llai cyfyngol sy’n sicrhau, o leiaf, bod unrhyw aelwyd sy’n bodloni’r diffiniad o dlodi tanwydd yn gallu cael cymorth pan fo angen. Dylai unrhyw newidiadau i’r meini prawf cymhwysedd hefyd ystyried:

- sut y gellir cefnogi eiddo sydd ag EPC gradd D yn y dyfodol; a
- chyflwyno trothwy trosiant busnes (lle byddai aelwyd ddomestig yn bennaf sydd hefyd wedi cofrestru fel busnes yn dod yn anghymwys uwchlaw’r trothwy hwnnw) er mwyn helpu i gefnogi busnesau bach a gwledig sy’n digwydd bod yn gweithredu o eiddo domestig ac sy’n destun cyfyngiadau cymhwysedd ar hyn o bryd. ........................................................................................................................... Tudalen 32

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddysgu gwersi o adroddiad Archwilio Cymru a nodi yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn fwy o ran maint, yn ddoethach o ran pwy y mae'n ei dargedu ac yn wyrddach yn ei hymyriadau. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanwaith cyfreithiol y mae'n ei ffafrio ar gyfer cynnal yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys sut y bydd yn sicrhau bod y Senedd a rhanddeiliaid eraill yn gallu craffu ar y rhain mewn modd cadarn. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru annog atgyweirio boeleri yn hytrach na gosod boeleri newydd lle bo modd, yn enwedig mewn achosion lle nad yw mesurau eraill megis atal drafftiau ac inswleiddio wedi'u harchwilio'n llawn neu lle mae dewisiadau gwyrddach eraill (fel pympiau gwres ffynhonnell aer) ar gael. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun seiliedig ar ardal yn y dyfodol yn blaenoriaethu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y cynllun, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol ac eraill. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o fanteision ac anfanteision treialu'r dull "pentref enghreifftiol" o dargedu pentref yn ei gyfanrwydd er mwyn sefydlu glasbrint i drefi a phentrefi eraill ei efelychu. Dylai'r asesiad hwn ystyried gwaith ymchwil presennol ac enghreifftiau o arfer gorau rhyngwladol. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun seiliedig ar ardal yn y dyfodol yn datblygu strategaeth ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r rhwydweithiau presennol, a bod ymdeimlad cryfach o lawer o ymrwymiad ymhlith cymunedau lleol. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cynnwys fframwaith cadarn ar gyfer casglu, monitro a gwerthuso data a fydd yn cynorthwyo'r broses o reoli a chydymffurfio â chontractau ac yn galluogi mesur canlyniadau'n well ac archwiliad rheolaidd. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu i'w dull graddol yn y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf weithio'n ymarferol. Rydym yn argymell bod y dull graddol yn cael ei ategu gan adolygiadau cyfnodol i ganfod a yw'r Rhaglen yn cyflawni yn erbyn ei hamcanion. Byddai nifer a dilyniant unrhyw adolygiad cyfnodol o'r fath yn dibynnu'n rhannol ar gyfnod a hyd y Rhaglen, fodd bynnag, byddem yn disgwyl i adolygiad ddigwydd hanner ffordd o leiaf. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau na all y camgymeriadau a wnaed fel rhan o'r broses o gaffael a rheoli contract y cynllun presennol gael eu hailadrodd mewn ymarfer neu gynllun caffael arall gan y llywodraeth yn y dyfodol. ........................................................................................................ Tudalen 42

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd drefn sy'n addas at y diben ar gyfer sicrhau ansawdd, sy'n cynnwys:

- rhaglen o wiriadau ar ôl gosod i'w gwneud gan drydydd parti annibynnol; a
- phrosesau cadarn ar gyfer casglu, dadansoddi a storio data perfformiad. ........................................................................................................................ Tudalen 42

**Argymhelliad 16.** Dylai'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd geisio talu am gost 'gwaith galluogi' megis ailaddurno yn enwedig yn achos y teuluoedd incwm isaf, a sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn ymwybodol o unrhyw gostau cudd y byddant yn eu hwynebu ymlaen llaw. ........................................................................................................................ Tudalen 43

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori'r dull ffabrig a 'gwaethaf yn gyntaf' o ran ôl-osod, gan dargedu'r aelwydydd tlotaf yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran tanwydd, yn egwyddorion craidd iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. .................................................... Tudalen 51

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i lunio strategaeth glir, hirdymor ar gyfer datgarboneiddio gyda'r nod o roi'r hyder sydd ei angen ar ddiwydiant i fuddsoddi mewn sgiliau, technoleg a phobl. ............................................................................ Tudalen 52

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd a'r Pwyllgor hwn am y cynnydd tuag at gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net a dylai geisio ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na dechrau Toriad yr Haf y Senedd sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2022. .................................................... Tudalen 52

**Argymhelliad 20.** Gyda'r potensial i brisiau nwy barhau i godi hyd y gellir rhagweld, ymhlith pryderon o'r newydd ynghylch diogelwch cyflenwadau ynni, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cyllid sydd ei angen i ymateb drwy adolygu digonolrwydd ei dyraniadau gwariant ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn tai. Dylai'r adolygiad hwn nodi unrhyw gamau gweithredu neu weithgareddau y gellir eu blaenoriaethu, eu huwchraddio, neu eu cyflymu er mwyn lleihau'r galw a chynyddu effeithlonrwydd a dylid cwblhau hyn erbyn mis Rhagfyr 2022. ........... Tudalen 52

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun effeithlonrwydd ynni i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig. Dylai'r cynllun hwn gynnwys cynllun ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r heriau penodol a wynebir mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys:

- prinder sgiliau angenrheidiol mewn gweithluoedd lleol;
- materion o ran y gadwyn gyflenwi;
- y gyfran uwch o eiddo oddi ar y grid, sy'n fwy anodd eu trin. ...................... Tudalen 59

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru wella effeithlonrwydd ynni drwy gyfuniad o gymhellion, safonau ac ymgysylltiad.

- Er mwyn cymell gweithredu, dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r TAW bresennol ar gyfradd sero ar fesurau inswleiddio ac archwilio dichonoldeb cynllun benthyciadau effeithlonrwydd ynni ar gyfer landlordiaid yn y sector rhentu preifat.
- Er mwyn gwella safonau, dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i weithredu ar gynigion i gynyddu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni i EPC gradd C erbyn 2028 ac, os nad yw'n fodlon gweithredu, ymchwilio i roi safonau uwch ar waith yng Nghymru yn unig.
- Er mwyn ymgysylltu'n well â'r sector, dylai'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd gynnwys gwell cyngor a chanllawiau sy'n targedu'n benodol landlordiaid yn y sector preifat a'u tenantiaid. ........................................................................................ Tudalen 60

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Rhentu Doeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf gyda'r bwriad o ddefnyddio'r corff hwnnw fel cyfrwng i ymgysylltu â'r sector rhentu preifat ar effeithlonrwydd ynni a mesuryddion deallus ochr yn ochr â nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd y gwaith hwn erbyn mis Tachwedd 2022.
...................................................................................................................................................... Tudalen 60

# 1. Cyflwyniad

Mae tlodi tanwydd yn crynhoi un o heriau mwyaf arwyddocaol yr unfed ganrif ar hugain: mynd i'r afael â bygythiad newid hinsawdd tra'n amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed rhag costau lliniaru.

## Cefndir

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi casgliadau ac argymhellion gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar dlodi tanwydd ac effeithiolrwydd y Rhaglen Cartrefi Clyd.

**2.** Y **Rhaglen Cartrefi Clyd** ("y Rhaglen") yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref i aelwydydd sydd naill ai mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o hynny ac mae'n cynnwys y cynlluniau Nyth ac Arbed.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar **adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Rhaglen Cartrefi Clyd** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, ac adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd **ar dlodi tanwydd yng Nghymru** a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020.

## Casglu tystiolaeth

**4.** Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth drwy ymgynghoriad cyhoeddus a sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys melinau trafod, elusennau ac arbenigwyr yn y diwydiant. Trafododd y Pwyllgor sut yr oedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn ymwneud â chanfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru.

**5.** Clywodd y Pwyllgor gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (y Gweinidog), ar 21 Mawrth 2022.

**6.** Cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gyfweliadau un-i-un ag unigolion sydd â phrofiad o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, unigolion mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o hynny, a landlordiaid yn y sector preifat.

**7.** Mae manylion llawn am y dystiolaeth a gasglwyd ar gael yn yr Atodiad. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

## Cylch gorchwyl

**8.** Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd ystyried y canlynol:

- Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o Raglen Cartrefi Clyd bresennol Llywodraeth Cymru?
- Sut y gall y gwersi hyn helpu i lywio'r fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi gwell cefnogaeth i'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu mewn perygl o hynny? Yn benodol:
    1. beth ddylai'r meini prawf cymhwysedd fod ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref?
    2. a ddylai'r dull sy'n seiliedig ar ardal, o fynd i'r afael â thlodi tanwydd (Arbed), barhau?
    3. pa gymorth penodol y dylid ei ddarparu i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd gwledig?
    4. sut y gellir annog landlordiaid y sector preifat i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith tenantiaid?
    5. sut y gall unrhyw gynllun(iau) olynol wella ar yr ystyriaethau cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol?
- Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyd-fynd yn well â'i hymdrechion i ddatgarboneiddio tai Cymru?

# 2. Tlodi tanwydd ar hyn o bryd

Yn dilyn cynnydd digynsail yng nghost ynni, yn enwedig nwy, mae amcangyfrifon diweddar y llywodraeth yn dangos cynnydd brawychus yn nifer y bobl sy'n cael trafferth gyda thlodi tanwydd. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd ar unwaith yn ein barn ni cyn codi prisiau ymhellach ym mis Hydref 2022.

**9.** I ddechrau, aeth yr ymchwiliad hwn ati i edrych ar Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru a'r heriau a'r cyfleoedd allweddol y gellid eu disgwyl gan gynllun olynol. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad, mae nifer o ffactorau wedi cynyddu pryderon ynghylch y bygythiad uniongyrchol o dlodi tanwydd a wynebir gan gymunedau Cymru.

## Costau byw cynyddol

**10.** Ar ddechrau 2022 cyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod chwyddiant ar 5.5 y cant a'r prif yrrwr oedd costau ynni cynyddol.[1] Bu cynnydd dramatig ym mhris cyfanwerthu ynni, yn enwedig nwy, oherwydd ystod o ffactorau gan gynnwys cyfyngiadau cyflenwad, lefelau isel o wynt, a'r rhyfel yn Wcráin.[2]

**11.** Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y rheolydd ynni Ofgem y byddai'r cap ar brisiau ynni yn cynyddu 54 y cant o fis Ebrill 2022 ymlaen.[3] Bydd y newid yn effeithio ar 22 miliwn amcangyfrifedig o gwsmeriaid ledled y DU. Yn ôl Ofgem, bydd y rhai ar dariffau diofyn sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol yn gweld cynnydd o £693 y flwyddyn, gyda'r rhai ar fesuryddion rhagdalu yn wynebu cynnydd o £708 y flwyddyn. Disgwylir cynnydd pellach yn y cap ar brisiau ym mis Hydref.

**12.** Mae disgwyl i'r newidiadau hyn i'r farchnad ynni daro'r aelwydydd tlotaf yng Nghymru yn galetach nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU, yn ôl amcangyfrifon gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae eu ffigurau'n awgrymu bod yr aelwydydd tlotaf yng Nghymru yn gwario dros chwarter – sef 26.2 y cant – o'u hincwm ar ynni a

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU: Ionawr 2022 (Saesneg yn unig)
[2] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Y wasgfa pris ynni (Saesneg yn unig) – 14 Ionawr 2022
[3] Ofgem, Y cap ar brisiau i gynyddu gan £693 o fis Ebrill ymlaen (Saesneg yn unig)

bwyd. Yn ôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol - ni fydd twf cyflogau na budd-daliadau lles yn gwneud iawn am chwyddiant sy'n codi'n gyflym.[4]

## Diffiniadau o dlodi tanwydd

**13.** Methodd Llywodraeth Cymru â chyrraedd ei tharged statudol i ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018; mae ei chynllun tlodi tanwydd newydd a gyhoeddwyd yn 2021 yn gobeithio erbyn 2035:

- yr amcangyfrifir nad oes unrhyw aelwyd yn wynebu tlodi tanwydd difrifol neu barhaus cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- amcangyfrifir nad oes mwy na 5 y cant o aelwydydd yn wynebu tlodi tanwydd ar unrhyw adeg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol; a
- bydd nifer yr holl aelwydydd sydd "mewn perygl" o wynebu tlodi tanwydd wedi mwy na haneru yn seiliedig ar amcangyfrif 2018.[5]

**14.** Mae Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru yn diffinio aelwydydd sydd angen talu mwy na 10 y cant o'u hincwm wrth wresogi eu cartref fel rhai sydd 'mewn tlodi tanwydd'; aelwydydd sydd angen talu mwy nag 20 y cant fel rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd 'difrifol'; ac aelwydydd sydd angen talu mwy nag 8 y cant ond llai na 10 y cant fel rhai sydd 'mewn perygl o dlodi tanwydd'.[6]

**15.** Ym mis Hydref 2021 amcangyfrifwyd bod 200,000 o aelwydydd Cymru yn dlawd o ran tanwydd, gyda 153,000 arall mewn perygl o hynny. Nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried y cynnydd ar 1 Ebrill 2022 yn y cap ar brisiau ynni. Gan ystyried y cynnydd yn y cap ar brisiau ar 1 Ebrill 2022, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif fel a ganlyn:

- Gallai hyd at 45 y cant (614,000) o'r holl aelwydydd fod mewn tlodi tanwydd yn dilyn y cynnydd yn y cap ar brisiau ym mis Ebrill 2022.
- Gallai hyd at 8 y cant (115,000) o'r holl aelwydydd fod mewn tlodi tanwydd difrifol.
- Gallai hyd at 15 y cant (201,000) o'r holl aelwydydd fod mewn perygl o fod mewn tlodi tanwydd difrifol.[7]

---

[4] Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Rhagolygon Economaidd y DU ar gyfer Gaeaf 2022 (Saesneg yn unig)
[5] Llywodraeth Cymru, Trechu Tlodi Tanwydd – 2 Mawrth 2021
[6] Llywodraeth Cymru, Trechu Tlodi Tanwydd – 2 Mawrth 2021
[7] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Tlodi Tanwydd – 13 Ebrill 2022

**16.** Roedd adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd ar dlodi tanwydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu "diffiniad mwy priodol o dlodi tanwydd" sy'n "adlewyrchu profiad byw cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn fwy cywir" ac a ddylai ystyried y "dull incwm gweddilliol" yn Lloegr a'r Alban fel y man cychwyn.[8]

**17.** Amlygodd tystiolaeth gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru yr argymhelliad hwn gan nodi bod dull yr Alban yn cymryd tai, gofal plant, costau byw i'r anabl a chostau eraill i ystyriaeth wrth bennu lefel yr incwm sydd ar gael i dalu am danwydd ac felly'n darparu mesuriad tlodi tanwydd sy'n fwy sensitif.[9]

## Rhyddhad i'r rhai sydd mewn angen dybryd

**18.** Roedd tystiolaeth gan LocalGiving, Cyngor Sir Ynys Môn, a Gweithredu Ynni Cenedlaethol yn amlygu'r sefyllfa anodd ac ansicr a wynebir gan rai teuluoedd a amlygwyd gan y cwestiwn "Gwresogi neu Fwyta?".[10]

**19.** Roedd y cynnydd mewn costau byw a'r cynnydd a ragwelir mewn costau ynni wedi'u nodi'n aml gan gyfranwyr yn ein gwaith ymgysylltu fel pryderon ar gyfer y dyfodol. Dywedodd llawer eu bod eisoes yn ymwybodol iawn o'u defnydd o ynni ac yn ofni y byddai unrhyw addasiadau pellach yn golygu dewis rhwng gwresogi a bwyta.[11]

**20.** Dywedodd Localgiving nad ymddengys bod y naill gynllun na'r llall o fewn y Rhaglen Cartrefi Clyd yn mynd i'r afael â phobl sydd mewn angen dybryd fel y rhai mewn dyled o ganlyniad i filiau tanwydd. Roedd yn dadlau mai'r prosiectau mwyaf effeithiol oedd y rhai a oedd yn cyfuno ymyriadau uniongyrchol, gan felly greu diddordeb a chael cefnogaeth gan fuddiolwyr, gyda gweithgareddau newid ymddygiad parhaus, sy'n darparu atebion cynaliadwy hirdymor i bobl yr effeithir arnynt gan dlodi tanwydd.[12] Amlygwyd mesurau sy'n lleihau'r angen dybryd megis dosbarthu 'pecynnau cynnes' a allai gynnwys rhimynnau drafft; bylbiau golau ynni effeithlon; llenni trwm; poptai araf; ffoil rheiddiaduron a gwaedwyr; monitorau ynni; camerâu delweddu thermol (i ddangos lle mae gwres yn cael ei golli); rheiddiaduron cost isel, gwres uchel a rheiddiaduron trydan llawn olew; cyngor ar ddyledion ac eiriolaeth.[13]

[8] Senedd Cymru, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Adroddiad ar dlodi tanwydd yng Nghymru – Ebrill 2020
[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Tai Siartredig Cymru
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, Localgiving, Ynys Môn, Gweithredu Ynni Cenedlaethol
[11] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o weithgarwch ymgysylltu
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, Localgiving
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, Localgiving

**21.** Nododd Jack Wilkinson-Dix o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wahaniaeth rhwng mynd i'r afael â gwelliannau effeithlonrwydd ynni uniongyrchol ac anghenion uniongyrchol yn fwy cyffredinol (sy'n gofyn am edrych ar incwm). Dywedodd nad yw Nyth mewn gwirionedd wedi'i gynllunio i gynnig gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar unwaith ond ei fod yn gallu cynnig cymorth ar unwaith ar ffurf gwiriadau hawl i fudd-daliadau, cynyddu incwm, cyngor ar ddyledion, rhoi gwybod i bobl am newid tariff.[14]

**22.** Roedd Ben Saltmarsh o Gweithredu Ynni Cenedlaethol yn rhagweld mynydd o ddyledion ar y gorwel a bod rhai aelwydydd yn wynebu dewis anodd o fynd i ddyled a chynhesu'r cartref, neu beidio â chynhesu'r cartref a mynd heb. Aeth ymlaen i amlygu amddiffyniadau penodol sydd ar gael yn y diwydiant ynni megis yr angen i gyflenwyr ystyried 'gallu i dalu' aelwyd wrth drafod ad-daliadau cyn ychwanegu bod angen mynd i'r afael â gwella effeithlonrwydd ynni a chyfansoddiad cartrefi pobl fel angen ar unwaith.[15]

**23.** Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym fod dileu'r codiad Credyd Cynhwysol a'r cynnydd sylweddol mewn costau ynni yn gorfodi mwy o'u tenantiaid i dlodi tanwydd a nodwyd fod hunan-ddatgysylltu yn broblem gynyddol.[16]

## Ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

**24.** Ar ôl cyhoeddi'r cap ar brisiau ynni ac mewn ymateb i bryder cynyddol y cyhoedd ynghylch prisiau ynni mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Ad-daliad Biliau Ynni o £200 fesul aelwyd i liniaru'r cynnydd mewn prisiau. Bydd yr ad-daliad yn cael ei gymhwyso'n uniongyrchol gan y cwmni ynni i filiau yn yr hydref ar ffurf benthyciad a bydd yn cael ei ad-dalu'n awtomatig mewn rhandaliadau o £40 dros bum mlynedd o 2023 ymlaen.[17]

**25.** Yn Natganiad Gwanwyn y Canghellor, cyhoeddodd Llywodraeth y DU doriad yn y Dreth ar Werth (TAW) i 0 y cant ar ddeunyddiau arbed ynni (inswleiddio) a gosod deunyddiau arbed ynni.[18]

**26.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru daliad untro gwerth £200 i aelwydydd cymwys, sef y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf.[19] Cyflwynodd hefyd "daliad cost-byw" o £150 a ddarparwyd i bob aelwyd mewn eiddo ym mandiau'r dreth gyngor A i D.

---

[14] Cofnod y Trafodion, paragraff 180 – 7 Mawrth 2022
[15] Cofnod y Trafodion, paragraff 184 – 7 Mawrth 2022
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cartrefi Cymunedol Cymru
[17] Llywodraeth EM, Taflen Ffeithiau Ad-daliad Biliau Ynni (Saesneg yn unig) – Chwefror 2022
[18] Llywodraeth EM, Datganiad Gwanwyn 2022: dogfennau (Saesneg yn unig)
[19] Llywodraeth Cymru, Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf

**27.** Galwodd Gweithredu Ynni Cenedlaethol ar i strategaeth trechu tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru gynnwys targedau interim gan nodi bod targedau anstatudol a oedd 15 mlynedd i ffwrdd, a oedd yn rhychwantu tri thymor y Senedd, heb unrhyw gerrig milltir interim, yn bur annhebygol o ysgogi'r camau gweithredu parhaus ac angenrheidiol sydd eu hangen i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.[20]

**28.** I gyd-fynd â chyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd diwygiedig yng Nghymru ym mis Ebrill 2022, ailadroddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol alwadau Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU gymryd camau gweithredu ar y cyd ac wedi'u targedu i leddfu'r argyfwng costau byw. Roedd y mesurau a amlygwyd gan y Gweinidog yn cynnwys:

- talu'r Ad-daliad Biliau Ynni o £200 fel grant nad oes angen ei ad-dalu yn hytrach na benthyciad;
- cyflwyno cap is ar brisiau ynni ar gyfer aelwydydd incwm is; ac
- adfer y codiad o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol.

**29.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cadeirio ail uwchgynhadledd Costau Byw yn y misoedd i ddod.[21]

## Ein barn ni

### Rhagolwg economaidd

Hyd yn oed cyn y rhyfel yn Wcráin, roedd prisiau nwy ac ynni cynyddol ynghyd â chwyddiant cynyddol ar gyfer hanfodion fel bwyd yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau aelwydydd. Mae effaith gyfunol prisiau cynyddol a thwf cyflogau isel yn cyfrannu at yr hyn y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhagweld fydd y gostyngiad mwyaf mewn safonau byw ers y 1950au. Gydag incwm cyfartalog is aelwydydd, mae aelwydydd yng Nghymru yn fwy agored i'r pwysau hyn na rhannau eraill o'r DU.

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o dlodi tanwydd yn dangos bod 14 y cant o aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd ac y gallai'r niferoedd godi eto i 45 y cant o aelwydydd. Mae'r mesurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a'r Ad-daliad Biliau Ynni i'w croesawu ond maent yn annigonol. Mae'r mesurau presennol yn annhebygol o fod yn ddigon i gefnogi'r rhai ar bennau isaf y raddfa incwm sydd

[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu Ynni Cenedlaethol
[21] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Tlodi Tanwydd – 13 Ebrill 2022

eisoes yn cael trafferth talu biliau tanwydd. Mae llawer o aelwydydd sy'n fwy anodd eu cyrraedd yn debygol o 'syrthio drwy'r rhwyd' o ran cymorth. Wrth i effaith newidiadau i'r cap ar brisiau ynni ym mis Ebrill 2022 ar aelwydydd incwm isel ddod yn gliriach, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried pa gamau pellach y gallai fod eu hangen ar unwaith i atal aelwydydd incwm isel rhag gorfod lleihau faint o fwyd y maent yn ei fwyta er mwyn gwresogi eu cartrefi.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cymorth a gynigir i aelwydydd incwm isel drwy'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf cyn hydref 2022. Dylai'r adolygiad hwn bennu a ellir gwneud gwelliannau wrth dargedu cymorth drwy:

- asesu cyfraddau manteisio yn ôl ardal awdurdod lleol;
- asesu effeithiolrwydd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth; ac
- ystyried a oes angen rhagor o waith allgymorth i gefnogi'n rhagweithiol y grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd a grwpiau sy'n agored i niwed.

Er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y tymor hwy, bydd angen gwelliannau mawr mewn effeithlonrwydd ynni a newid i ffynonellau ynni cynaliadwy. Fodd bynnag, o ran yr argyfwng presennol rydym yn galw am gamau gweithredu wedi'u targedu a chynlluniau carlam i wella effeithlonrwydd ynni yn yr aelwydydd tlotaf. Nodwn fod y camau blaenoriaeth yn y Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd yn cael eu hadolygu, ac ni ddisgwylir y canlyniad tan wanwyn 2023. O ystyried difrifoldeb y sefyllfa, gofynnwn i'r adolygiad hwn gael ei gyflymu gyda phwyslais ar bennu targedau interim a chamau gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd ar unwaith.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei hadolygiad o'r camau blaenoriaeth yn y Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd gyda'r bwriad o nodi camau neu fesurau ar unwaith ac yn y byrdymor y gallai'r llywodraeth eu cymryd i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth gyda thlodi tanwydd a phennu targedau interim.

Nodwn y penderfyniad i ostwng TAW i 0 y cant ar inswleiddio a chynhyrchion inswleiddio cartrefi a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i wneud y mwyaf o fanteision y mesur hwn, gan gynnwys drwy hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ymhlith buddiolwyr posibl. Nodwn y rhestr hir o fesurau a amlinellwyd gan Localgiving ar ffurf "pecynnau cynnes".

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Panel Cynghori ar Dlodi Tanwydd i nodi camau neu fesurau ar unwaith ac yn y byrdymor y gallai'r llywodraeth eu cymryd i gefnogi

teuluoedd mewn tlodi tanwydd. Dylai hyn gynnwys ystyried cyfleoedd i wneud y mwyaf o fanteision y toriad diweddar mewn TAW i ddeunyddiau arbed ynni ac inswleiddio.



Yn 2021, roedd 200,000 o aelwydydd (14%) yn byw mewn tlodi tanwydd.

Bellach, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y gallai 614,000 o aelwydydd (neu 45%) fod yn byw mewn tlodi tanwydd y gaeaf hwn.

# 3. Dysgu gwersi'r rhaglen bresennol

"Installing new heating systems without insulating a home is like buying a teapot with cracks in it."[22]

Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol yn amlygu nifer o ddiffygion. Er bod y Rhaglen yn ddiamau wedi helpu llawer o bobl, mae'n hanfodol bod gwersi'n cael eu dysgu os ydym am gyflawni'r newid sydd ei angen i ddileu tlodi tanwydd a chyflawni ein huchelgeisiau newid hinsawdd.

## Y Rhaglen Cartrefi Clyd: Nyth ac Arbed

**30.** Crëwyd y Rhaglen Cartrefi Clyd, sy'n cynnwys cynlluniau Nyth ac Arbed, yn 2011 ac mae'n un o fecanweithiau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi aelwydydd sy'n eiddo preifat neu'n cael eu rhentu ac sydd mewn tlodi tanwydd neu sydd mewn perygl o hynny.[23] Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi bron i £400 miliwn yn y Rhaglen yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021 sydd wedi gwella effeithlonrwydd ynni 67,100 o gartrefi.[24]

**31.** Mae'r cynllun Nyth 'seiliedig ar anghenion' yn cynnig pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni a chyngor i leihau biliau ynni i bobl ar incwm isel neu sy'n cael trafferth gyda thlodi tanwydd. Roedd y cynllun Arbed 'seiliedig ar ardal' yn cynnig gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd daearyddol wedi'u targedu. Daeth y cynllun Arbed i ben ym mis Tachwedd 2021. Mae disgwyl i Nyth barhau hyd at fis Mawrth 2023.

**32.** Daeth ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd i ben ar 1 Ebrill 2022.

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Sefydliad Gofal a Thrwsio
[23] Llywodraeth Cymru, "Cael help gydag effeithlonrwydd ynni"
[24] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2

**33.** O dan y Rhaglen, gallai aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer naill ai Nyth neu Arbed mewn egwyddor gael pecyn am ddim o fesurau effeithlonrwydd ynni, yn seiliedig ar asesiad tŷ cyfan, gan gynnwys:

- inswleiddio;
- systemau gwres canolog sy'n defnyddio unrhyw fath o danwydd;
- mesurau gwresogi carbon isel fel pympiau gwres ffynhonnell aer;
- mesurau arbed dŵr a goleuadau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon;
- cymorth drwy linell gyngor Nyth.

**34.** Dim ond un cais y gellid ei wneud fesul aelwyd i Nyth, ac mae uchafswm gwariant ar gyfer y naill gynllun neu'r llall rhwng £5,000 ac £8,000 ar gyfer eiddo sydd ag EPC gradd E a rhwng £8,000 a £12,000 ar gyfer eiddo sydd ag EPC gradd F neu G.[25]

## Adroddiad Archwilio Cymru

**35.** Cyhoeddodd Archwilio Cymru **adroddiad ar y Rhaglen Cartrefi Clyd** ym mis Tachwedd 2021. Canfu'r adroddiad nifer o faterion i'w datrys, gan gynnwys:

- ailystyried y mesurau effeithlonrwydd ynni a gynigir;
- yr angen i egluro prif ddiben Nyth;
- hyfywedd parhaus y dull seiliedig ar ardal a ddefnyddir gan Arbed; a
- thynhau contractau yn y dyfodol i alinio costau a chryfhau goruchwyliaeth i sicrhau gwell gwerth am arian.[26]

**36.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021 ac wrth dderbyn pob argymhelliad, tynnodd sylw at y gwaith sydd ar y gweill i werthuso'r Rhaglen bresennol a pharatoi ar gyfer y cynllun (neu gynlluniau) olynol.[27]

[25] Llywodraeth Cymru, "Cael help gydag effeithlonrwydd ynni"
[26] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021
[27] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - 23 Rhagfyr 2021

## Amcanion, graddfa a thuedd

**37.** Un o ganfyddiadau allweddol adroddiad Archwilio Cymru oedd yr angen i fod yn gliriach ynghylch prif ddiben Nyth (ac unrhyw gynllun olynol). Canfu'r adroddiad fod Nyth wedi "newid o'i ddiben gwreiddiol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd" ac yn hytrach yn "canolbwyntio fwyfwy ar ddisodli boeleri sydd wedi torri neu foeleri aneffeithlon ar gyfer pobl sydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd".[28]

**38.** Dengys ffigurau ar gyfer 2020-21 fod 94.4 y cant o'r mesurau a osodwyd gan Nyth ar gyfer systemau gwres canolog, 5.5 y cant ar gyfer insiwleiddio atig, a 0.1 y cant ar gyfer mesurau atal drafftiau.[29] At hynny o ran proffil tlodi tanwydd y derbynwyr, dosbarthwyd 49.6 y cant fel rhai "ddim mewn tlodi tanwydd" yn 2020-21 (63.7 y cant oedd y ffigur cyfatebol yn 2019-20; a 56.7 y cant yn 2018-19).[30]

**39.** Awgrymodd nifer o sefydliadau a gymerodd ran yn ein hymchwiliad fod diffygion dylunio o ran yr amcanion a maint y Rhaglen wedi amharu ar ei heffeithiolrwydd, tra nododd eraill effaith gadarnhaol y Rhaglen o ran cyflawni ei nodau.

**40.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod y Rhaglen wedi'i thanseilio gan fod ganddi nodau deuol (datgarboneiddio a thlodi tanwydd) ac nad oedd yn bodloni'r naill amcan na'r llall yn ddigonol.[31] Yn unol â chanfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru, nodwyd fod effaith datgarboneiddio'r Rhaglen yn gyfyngedig a bod y Rhaglen wedi blaenoriaethu gosod mesurau allyrru carbon yn hytrach na mesurau datgarboneiddio fel gosod insiwleiddio. Roeddent hefyd yn dadlau bod amcan datgarboneiddio wedi cwtogi ar effeithiolrwydd y Rhaglen wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy gefnogi aelwydydd nad ydynt yn byw mewn tlodi tanwydd ac yn cynnig ychydig iawn o gymorth i aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd y tu hwnt i wella effeithlonrwydd ynni.[32]

**41.** Amlygodd cyfranwyr at ein gwaith ymgysylltu hefyd y dylai unrhyw gynllun newydd gynnwys ffenestri a drysau, hyd yn oed os cânt eu hariannu'n rhannol, gan fod unrhyw fudd a geir o osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael ei golli os oes diffygion mewn mannau eraill yn yr eiddo.[33] Roedd Astudiaeth Achos F yn dangos y pwynt hwn:

---

[28] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021
[29] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol Nyth ar gyfer 2020-21
[30] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol Nyth ar gyfer 2019-20; Adroddiad Blynyddol Nyth ar gyfer 2018-19 (gweler hefyd y ffigurau a amlygwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Sefydliad Bevan; Gofal a Thrwsio Cymru)
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[33] Crynodeb o weithgarwch ymgysylltu

> *"Nid yw'r 8 panel sydd wedi'u gosod yn ddigon i wella effeithlonrwydd ynni'r eiddo. Os oes gan yr eiddo ddrysau gwael, ffenestri gwael, ffelt gwael ar y to neu ddim ffelt o gwbl, inswleiddio gwael ac aneffeithlonrwydd pellach yn arwain at golli gwres yna bydd unrhyw fudd a gynigir gan baneli solar yn cael ei negyddu os na chaiff yr agweddau hyn eu cywiro."*

**42.** Galwodd Gofal a Thrwsio Cymru ar y Rhaglen i esblygu y tu hwnt i'w chynllun rhagosodedig presennol fel cynllun ailosod boeleri a thynnodd sylw at y gyfran isel o ymyriadau fel rhan o'r Rhaglen a oedd yn ymwneud ag inswleiddio:

> *"Simply replacing faulty boilers does not mean that a household will no longer struggle with fuel poverty if heat is still escaping from their properties and their energy bills remain high because of it. Installing new heating systems into homes without insulating a home is like buying a teapot with cracks in it."*[34]

**43.** Nododd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (a fu'n ymwneud â darparu'r llinell gyngor effeithlonrwydd ynni ar gyfer Nyth) effaith gadarnhaol Nyth ac Arbed gan nodi bod y ddau gynllun wedi bod yn effeithiol o ran cefnogi rhai o'r aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru i leihau eu biliau ynni, gwella cysur ac ansawdd eu cartrefi a lleihau allyriadau carbon.[35] Ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth, er bod heriau wedi bod ynghlwm wrth gyflwyno agweddau ar y Rhaglen Cartrefi Clyd ei bod yn cefnogi'r ffocws deuol yn gryf ac yn galw am fwy o hyblygrwydd yn nyluniad a ffocws unrhyw gynllun olynol i ganiatáu ar gyfer technolegau, dulliau gweithredu a blaenoriaethau newydd.[36]

**44.** Dywedodd Cymru Gynnes (a oedd â rôl mewn atgyfeiriadau ar gyfer Nyth) fod y Rhaglen yn hynod gadarnhaol ac wedi creu niferoedd helaeth o gartrefi cynhesach ledled Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod lle i fireinio a gwella agweddau ar y model cyflawni i wneud y cynllun yn fwy effeithlon, hygyrch a chynhwysol.[37]

**45.** Dywedodd Nwy Prydain/Centrica, a oedd yn rheoli Nyth ar ran Llywodraeth Cymru, ei fod yn hynod falch o'i gysylltiad â'r rhaglen a bod gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn 2020-21 wedi darparu arbediad cyfartalog o £305 fesul aelwyd y flwyddyn.[38] Roedd yn dadlau y dylid cynnwys

---

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Sefydliad Gofal a Thrwsio
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymru Gynnes
[38] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llythyr gan Centrica ynghylch yr ymchwiliad i'r Rhaglen Tlodi Tanwydd a Chartrefi Clyd – 20 Ebrill 2022

atgyweiriadau boeleri lluosog yn y cynllun ac am roi terfyn ar y cap ar gyfer ceisiadau sengl, fel y ddwy wers a ddysgwyd o'r Rhaglen gyfredol.

**46.** Nododd Gweithredu Ynni Cenedlaethol ddiffyg graddfa fel diffyg allweddol yn y Rhaglen gan ddweud nad oedd wedi bod yn ddigon i fodloni angen na thargedau ac y bydd "graddfa debygol tlodi tanwydd yn 2022 yn gofyn am godi nifer ehangach o lawer o aelwydydd allan o dlodi tanwydd bob blwyddyn o'i gymharu â'r hyn y mae'r Rhaglen bresennol wedi'i gyflawni. Hyd yn oed yn ôl amcangyfrifon 2018, dywedodd y cyn-Weinidog y bydd angen i fwy na dwbl y nifer o gartrefi elwa o fuddsoddiad."[39]

**47.** Wrth siarad ar ran Gweithredu Ynni Cenedlaethol, amlygodd Ben Saltmarsh bryderon eraill ynghylch y mesurau a fabwysiadwyd. Nododd fod y mwyafrif helaeth o fesurau wedi ymwneud â gosod boeleri a systemau gwres canolog newydd a bod hyn wedi bod ar draul uwchraddiadau ffabrig gwirioneddol ystyrlon a fyddai'n ateb parhaol i filiau is, ac yn dod â llawer o fanteision hirdymor.[40]

**48.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd oedd yr angen i ymyriadau yn y dyfodol gael eu datblygu gydag amcanion datgarboneiddio clir, o ystyried dibyniaeth y cynlluniau blaenorol ar foeleri nwy ac y byddai hyn yn helpu i ddiogelu ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd rai o'r gofynion o ran gofod, cynllunio, inswleiddio a chyflenwad ynni y mae angen eu bodloni er mwyn darparu rhai dewisiadau amgen di-garbon megis pympiau gwres.[41]

**49.** Amlygodd Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fod pryderon wedi'u mynegi'n flaenorol ynghylch graddfa a chyflymder y Rhaglen Cartrefi Clyd, a nododd risg ynghylch derbyn atebion byrdymor i broblemau hirdymor:

> *"I don't think that we can underestimate the scale of that challenge because, yet again, we now find ourselves trying to resolve a long-term problem whilst in the middle of a real peak of a crisis of it, and that's always very difficult, and the risk there is that we chuck short-term money at a problem and miss the kind of wider, longer term objectives of it. I think if there's one thing that the Committee could keep an eye on, it's that. How do we respond to the short-term real pressures on households whilst not storing up problems for*

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu Ynni Cenedlaethol
[40] Cofnod y Trafodion, paragraff 112 – 7 Mawrth 2022
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Y Rhaglen Cartrefi Clyd
2011 – 2023

Cartrefi Clyd
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes

Wedi ariannu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd cymwys drwy **Nyth** ac **Arbed**.

### Nyth

Nyth Nest – Gwneud Cymru'n Glyd – Making Wales Cosy

Cynllun seiliedig ar anghenion i aelwydydd tlawd o ran tanwydd.

**Yn dod i ben ym mis Ebrill 2023.**

**Meini prawf cymhwysedd:**

Rhaid i aelwyd fod yn derbyn budd-daliadau prawf modd a meddu ar; a Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) sydd â gradd E, F neu G.

**Neu**

Mae gan aelwyd aelod sydd â chyflwr meddygol, incwm isel (yn gysylltiedig â nifer y bobl yn yr aelwyd), ac mae ganddo EPC gradd D, E, F neu G.

### Arbed

arbed am byth – CYMRU

Cynllun seiliedig ar ardaloedd oedd yn cynnig gwelliannau effeithlonrwydd ynni.

**Daeth i ben ym mis Tachwedd 2021.**

**Meini prawf cymhwysedd:**

Yn targedu ardaloedd difreintiedig gyda chlystyrau o aelwydydd gydag EPC gradd E, F neu G.

**Ffynhonnell:** Lywodraeth Cymru

> *the future, as we've seen in terms of quickly installing gas boilers?, But actually, gas boilers are not the long-term answer at all"*[42]

**50.** Amlygodd Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan ddiffyg ffocws craidd y Rhaglen drwy ofyn a yw'n rhaglen tlodi tanwydd, a yw'n rhaglen ailosod boeleri argyfwng ynteu a yw'n rhaglen ddatgarboneiddio?[43]

## Meini prawf cymhwysedd ar gyfer Nyth ac Arbed

**51.** Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu – ochr yn ochr â diffyg graddfa ddigonol a diben clir – bod gan y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir gan y Rhaglen rôl i'w chwarae o ran lleihau ei heffeithiolrwydd. Rhoddir manylion y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y ddau gynllun yn: **Tabl 1: Meini prawf cymhwysedd ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd**.

**52.** Tynnodd Jack Wilkinson-Dix sylw at y ffaith, pan gafodd y Rhaglen ei dyfeisio gyntaf, fod derbyn budd-dal prawf modd yn brocsi defnyddiol ar gyfer tlodi tanwydd ond bod y sefyllfa wedi newid yn ystod y degawd ers hynny. Yn 2011 roedd tua 68 y cant o bobl a oedd mewn tlodi tanwydd ar fudd-daliadau prawf modd. Yn ôl Mr Wilkinson-Dix erbyn heddiw roedd y sefyllfa wedi newid i'r fath raddau fel nad yw tua 70 y cant o bobl sydd mewn tlodi tanwydd ar unrhyw fudd-daliadau prawf modd.[44]

**53.** Croesawodd Gofal a Thrwsio Cymru newidiadau arfaethedig i ymestyn meini prawf cymhwysedd i aelwydydd incwm isel nad ydynt ar fudd-dal prawf modd gan ddweud y byddai'r newidiadau'n gwneud y cynllun yn fwy hygyrch i bobl hŷn, gan gynnwys perchen-feddianwyr a thenantiaid preifat.[45] Roedd hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y trothwy arbedion "mympwyol" ar gyfer pobl 75 oed a hŷn:

> *"One case – about which we have complained to Nest, but it is not an isolated incident – focused on a client who, aged 75, had £16,500 in a savings account which was marginally above the Nest savings threshold over £16,000. The client also had annual income of higher than the £21,352, due to receiving the higher rate Attendance Allowance. If this client were a year younger, and if they did not have such severe health conditions which resulted in high Attendance Allowance payments, they would qualify for the*

[42] Cofnod y Trafodion, paragraff 58 – 7 Mawrth 2022
[43] Cofnod y Trafodion, paragraff 12 – 14 Chwefror 2022
[44] Cofnod y Trafodion, paragraffau 153-155 – 7 Mawrth 2022
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Sefydliad Gofal a Thrwsio

> *Nest scheme. We believe this is discrimination on the base of age and health, and as such this should be rectified".*[46]

**54.** Tynnodd Cymru Gynnes, Gweithredu Ynni Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sylw at y ffaith bod cael cyfeiriad busnes wedi'i gofrestru i eiddo, hyd yn oed siop ar-lein, hefyd yn gwneud aelwyd yn anghymwys i gael cymorth o dan Nyth.[47]

**55.** Dywedodd Jonathon Cosson o Cymru Gynnes wrthym fod y cap ar grantiau a'r ffaith mai dim ond unwaith y gallai'r derbynwyr wneud cais wedi gorfodi llawer i ddewis rhwng system wresogi newydd neu inswleiddio:

> *"One of the problems we tend to find with Nest is that it's not that it necessarily has to be insulation or heating, but because the grant levels, or the grant caps, don't allow both, because you pass the threshold, then it tends to be one or the other. I'd like to see, perhaps, two streams of funding for Nest, going further—one a heating stream and one an insulation stream—and you can combine the two and look at both so that you can do a proper whole-house approach, which we can't currently do in the way that Nest is being delivered currently."*[48]

**56.** Yn ogystal â galw am fwy o arian ar gyfer y cynllun olynol, dadleuodd Mr Cosson dros ethos "ffabrig yn gyntaf" sy'n cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni cost is.[49] Dadleuodd hefyd y dylid tynnu nifer o daliadau budd-dal megis Taliadau Annibyniaeth Personol a Lwfans Gweini o'r asesiadau incwm fel bod y cynllun olynol yn targedu'r rhai sy'n agored i niwed yn well.[50]

**57.** Dywedodd Ben Saltmarsh o Gweithredu Ynni Cenedlaethol fod safbwyntiau cymysg ar effaith y Cynllun ar leihau tlodi tanwydd a chodwyd rhai cwestiynau difrifol hefyd ynghylch pa mor effeithiol fu'r cynlluniau hynny wrth dargedu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd ac sydd â'r angen mwyaf am gymorth.[51] Roedd tystiolaeth Gweithredu Ynni Cenedlaethol yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd 69 y cant o'r rhai a oedd yn wynebu tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2018 yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.[52]

---

[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Sefydliad Gofal a Thrwsio
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymru Gynnes; Gweithredu Ynni Cenedlaethol; Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
[48] Cofnod y Trafodion, paragraff 7 – 14 Chwefror 2022
[49] Cofnod y Trafodion, paragraff 7 – 14 Chwefror 2022
[50] Cofnod y Trafodion, paragraff 38 – 14 Chwefror 2022
[51] Cofnod y Trafodion, paragraffau 153 - 155 – 7 Mawrth 2022
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu Ynni Cenedlaethol

**58.** Dadleuodd Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan fod y meini prawf cymhwysedd presennol yn rhy gyfyngol a bod y trothwyon incwm yn llawer rhy isel.[53] Roedd Dr Winckler yn hytrach yn eirioli symud i ryw fath o ddull prawf modd nad yw'n gyfan gwbl neu'n ddim byd—fel y gallwch ei gael i gyd os ydych yn cael budd-dal a dim byd os ydych £2 drosodd—ond rhyw fath o raddfa symudol yn cynnig cymysgedd o grantiau a benthyciadau yn dibynnu ar eich incwm, a fyddai â'r fantais o helpu pobl ar incwm lefel ganolig nid yn unig i dorri eu costau ynni, ond hefyd i leihau eu hallyriadau carbon.[54]

**59.** Yn adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd ar dlodi tanwydd, argymhellwyd ehangu meini prawf cymhwysedd Nyth i gynnwys aelwydydd nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Ategwyd hyn gan awdurdodau lleol a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn, gan awgrymu bod angen gwneud mwy i dargedu aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n dlawd o ran tanwydd.[55]

**60.** Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn galw am well data ar nodweddion aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd.[56] Mynegodd Cymru Gynnes bryderon ynghylch sut mae incwm yn cael ei gyfrifo at ddibenion cymhwysedd.[57]

## Tystysgrifau Perfformiad Ynni

**61.** Rhaid i bob cartref yn y DU sy'n cael ei werthu neu ei rentu gael Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Yn ddilys am 10 mlynedd, maent yn darparu sgôr o A i G.[58] Sgôr isel ar gyfer EPC aelwyd yw'r ail gydran a ddefnyddir gan y Rhaglen i asesu cymhwysedd.

**62.** Yn ôl Sefydliad Bevan, mae'r nifer fwyaf o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, a bron i hanner yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn ôl Archwilio Cymru, yn byw mewn eiddo sydd â sgôr D. Hefyd yn ôl Sefydliad Bevan, nid yw 74 y cant o aelwydydd ar raddfa E i G yn wynebu tlodi tanwydd er bod ganddynt gostau ynni cymharol uchel.[59]

**63.** Tynnodd Dr Donal Brown o'r New Economics Foundation sylw at nifer o anfanteision yn ymwneud â'r cynllun graddio EPC ac eglurodd nad oedd Tystysgrifau Perfformiad Ynni erioed wedi'u cynllunio i fod yn arf manwl inni ddeall y galw am ynni yn ein cartrefi.[60]

[53] Cofnod y Trafodion, paragraff 31 – 14 Chwefror 2022
[54] Cofnod y Trafodion, paragraff 43 – 14 Chwefror 2022
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ynys Môn
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymru Gynnes
[58] Gov.uk, Buying or Selling your Home (Saesneg yn unig)
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[60] Cofnod y Trafodion, paragraff 63 – 7 Mawrth 2022

## Barn Llywodraeth Cymru

**64.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ei hymgynghoriad ar yr iteriad nesaf o’r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi nodi llawer o wersi’r gorffennol a bod cwestiynau’r ymgynghoriad wedi’u cynllunio i “groesawu safbwyntiau a barn ynghylch diben fersiwn nesaf y rhaglen, y meini prawf cymhwystra i’w defnyddio, a’r mesurau effeithlonrwydd ynni cartref i’w darparu i aelwydydd drwy’r rhaglen.”[61] Roedd hefyd yn cydnabod bod “gorddibyniaeth ar fudd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd fel mesur o incwm isel [...] o bosibl wedi eithrio pobl sy’n byw ar incwm is”.[62]

**65.** O ran canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi derbyn y canfyddiadau a’r argymhellion a bod “[c]ydweithio helaeth” rhwng y ddau sefydliad i “ddysgu’r gwersi o’r rhaglen bresennol”.[63]

**66.** O ran gosod boeleri nwy newydd, dywedodd papur y Gweinidog y bydd “gosod boeler nwy effeithlon yn arbed carbon, yn gwella amodau byw mewn cysur ac yn helpu i leihau’r gost o gynnal system wresogi foddhaol.” Ymhelaethodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn yn y Pwyllgor a dywedodd fod newid boeleri yn un o’r mesurau a argymhellir a ddeilliodd o’r asesiadau tŷ cyfan ac:

> *“[...] whilst it seems perverse to do that, does actually save energy and carbon emissions by putting in a more efficient gas boiler, and it does result in a saving in terms of those household bills—an average annual saving of about £300—and that's what we need to develop going forward. But in terms of insulation, 97 per cent of households already in Wales have roof insulation. Now, there are some cases where that could be topped up, but 68 per cent of households in Wales have cavity wall insulation, so a number of those fabric-first measures are already in place, and that's why the whole-house assessment is so important.”*[64]

[61] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2
[62] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2
[63] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2
[64] Cofnod y Trafodion, paragraff 87 – 21 Mawrth 2022

## Ein barn ni

### Y Rhaglen gyffredinol

Heb os, mae’r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi gwneud gwahaniaeth parhaol a chadarnhaol i fywydau’r rhai sy’n cymryd rhan yn y cynllun. Mae tua 67,000 o gartrefi bellach yn gynhesach, ac yn fwy effeithlon o ran ynni nag a oedd yn debygol o fod heb yr ymyriad hwn. At hynny, mae nodau cyffredinol y Rhaglen – lleihau tlodi tanwydd a chynyddu effeithlonrwydd ynni – yn angenrheidiol ac yn ganmoladwy. Fodd bynnag, mae i ba raddau y mae’r Rhaglen wedi cyflawni’r nodau hyn yn llwyddiannus yn destun dadl.

### Dysgu’r gwersi

Mae rhai o ganfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn benodol, yn peri siom a rhwystredigaeth i’w darllen. Arweiniodd diffyg eglurder ynghylch amcanion craidd y Rhaglen at symud oddi wrth ei ddiben gwreiddiol hyd nes ei bod yn gynllun ailosod boeleri nwy i bob pwrpas. Er y bydd newid boeler hen ffasiwn neu aneffeithlon wedi arwain at arbedion i’r aelwyd honno, dylid bod wedi gofyn cwestiynau am oblygiadau hirdymor a hyfywedd yr arfer hwn. Bydd angen symud oddi wrth y defnydd o nwy er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o ran newid hinsawdd, a gwella ein sicrwydd ynni, yn y degawd nesaf, a rhagwelwyd hyn ers peth amser. Ar ben hynny, bydd codiadau diweddar ym mhrisiau nwy yn golygu bod aelwydydd sydd wedi elwa o’r Rhaglen yn fwy agored i niwed nag a fyddai wedi bod yn wir pe bai mesurau effeithlonrwydd ynni gwahanol wedi’u blaenoriaethu.

Nid oedd **graddfa, maint a diben y Rhaglen yn cyfateb i lefel yr angen** yn ein cymunedau. Er mwyn i Lywodraeth Cymru gyrraedd ei thargedau ar gyfer mynd i’r afael â thlodi tanwydd bydd angen newid sylweddol o ran uchelgais a chyflawni. Bydd angen i’r Rhaglen nesaf fod ar raddfa sylweddol fwy os ydym am gyrraedd ein targedau newid hinsawdd a gweld gostyngiadau parhaus yn lefelau tlodi tanwydd.

Roedd agweddau ar gynllun y Rhaglen, sef y cap ar grantiau, a’r uchafswm o un cais, yn rhwystro ‘dull gweithredu tŷ cyfan’ mwy cyfannol ac effeithiol o ran effeithlonrwydd ynni. O ganlyniad i hyn, roedd aelwydydd a oedd yn cymryd rhan yn y Rhaglen yn aml yn cael eu gadael â dewis “naill ai, neu” o system wresogi newydd (nwy a thanwydd ffosil arall yn bennaf), neu fesurau inswleiddio heb ddigon o arian ar gyfer y ddau. Mae hyn yn anffodus yn enwedig gan ei bod yn debygol mewn rhai achosion y gallai’r inswleiddio hwnnw fod wedi darparu ateb mwy cost effeithiol, neu y byddai wedi darparu cyflenwad angenrheidiol i wneud y mwyaf o fudd system wresogi newydd. Hoffem weld y materion hyn yn cael sylw yn y Rhaglen nesaf.

**Argymhelliad 4.** Yn yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, dylai Llywodraeth Cymru gael gwared ar y cap ar gyfer ceisiadau sengl a dylunio dull mwy deallus o gyfyngu ar gostau na'r cap mympwyol presennol ar grantiau.

Roedd y **meini prawf cymhwysedd yn ddiffygiol, yn rhy gyfyngol ac yn ddangosydd gwael o fod yn dlawd o ran tanwydd** sy'n golygu nad oedd y Rhaglen bob amser yn targedu'r bobl gywir. Mae hyn yn debygol o fod wedi gadael nifer o aelwydydd a oedd yn dlawd o ran tanwydd yn anghymwys i gael cymorth. Bydd angen mynd i'r afael hefyd ag eithrio eiddo sydd â gradd D o ran EPC, yr amcangyfrifir eu bod yn cyfrif am tua hanner yr holl aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd. Bydd angen i'r Rhaglen nesaf fod yn fwy doeth wrth sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y bobl iawn, yn enwedig y rhai sydd â'r angen mwyaf. Fel rhan o unrhyw newidiadau, dylai'r Rhaglen nesaf hefyd ystyried tegwch y meini prawf sy'n gwahardd pob busnes o unrhyw faint ac sy'n digwydd bod yn gweithredu o eiddo domestig rhag bod yn gymwys i gael cymorth. Er mwyn helpu i gefnogi busnesau bach a gwledig sy'n cael eu rhedeg o eiddo domestig yn arbennig, dylid ystyried cyflwyno trothwy trosiant priodol, lle byddai unrhyw beth uwchlaw'r trothwy yn anghymwys i gael cymorth.

**Argymhelliad 5.** Yn yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu meini prawf cymhwysedd craffach, llai cyfyngol sy'n sicrhau, o leiaf, bod unrhyw aelwyd sy'n bodloni'r diffiniad o dlodi tanwydd yn gallu cael cymorth pan fo angen. Dylai unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd hefyd ystyried:

- sut y gellir cefnogi eiddo sydd ag EPC gradd D yn y dyfodol; a
- chyflwyno trothwy trosiant busnes (lle byddai aelwyd ddomestig yn bennaf sydd hefyd wedi cofrestru fel busnes yn dod yn anghymwys uwchlaw'r trothwy hwnnw) er mwyn helpu i gefnogi busnesau bach a gwledig sy'n digwydd bod yn gweithredu o eiddo domestig ac sy'n destun cyfyngiadau cymhwysedd ar hyn o bryd.

**Roedd yr ymyriadau a fabwysiadwyd yn blaenoriaethu systemau gwresogi tanwydd ffosil dros fesurau eraill** ac yn cynnwys yr arfer gwastraffus a niweidiol i'r amgylchedd o osod boeleri newydd yn hytrach na'u hatgyweirio, fel mater o drefn. Er ein bod yn cydnabod y gallai fod angen parhau i gefnogi systemau gwresogi nwy newydd yn y byrdymor, bydd angen i'r Rhaglen nesaf fod yn llawer mwy gwyrdd ac alinio'n well â'n huchelgeisiau hirdymor ar gyfer newid hinsawdd. Rhaid i hyn gynnwys cyflymu cynlluniau i drosglwyddo i ddewisiadau gwyrdd eraill megis pympiau gwres ffynhonnell aer, gan gynnwys datblygu sgiliau cysylltiedig.

Yn ei thystiolaeth, rhoddodd Llywodraeth Cymru sicrwydd inni y bydd gwersi'n cael eu dysgu a dywedodd fod yr ymgynghoriad ar yr iteriad nesaf o'r Rhaglen wedi ystyried y gwersi o adroddiad Archwilio Cymru. Disgwyliwn i'r sicrwydd hwn gael ei ategu gan gamau gweithredu a map ffordd clir yn nodi'r cyfeiriad teithio.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddysgu gwersi o adroddiad Archwilio Cymru a nodi yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn fwy o ran maint, yn ddoethach o ran pwy y mae'n ei dargedu ac yn wyrddach yn ei hymyriadau.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanwaith cyfreithiol y mae'n ei ffafrio ar gyfer cynnal yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys sut y bydd yn sicrhau bod y Senedd a rhanddeiliaid eraill yn gallu craffu ar y rhain mewn modd cadarn.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru annog atgyweirio boeleri yn hytrach na gosod boeleri newydd lle bo modd, yn enwedig mewn achosion lle nad yw mesurau eraill megis atal drafftiau ac inswleiddio wedi'u harchwilio'n llawn neu lle mae dewisiadau gwyrddach eraill (fel pympiau gwres ffynhonnell aer) ar gael.

# 4. Gwella rheolaeth a chyflwyniad y Rhaglen Cartrefi Clyd

## Arbed a dull seiliedig ar ardal

**67.** Cafodd y cynllun Arbed sy'n seiliedig ar ardal ei difetha gan faterion o ran perfformiad. Er enghraifft, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn:

> *"Profodd y cynllun oedi sylweddol a chafodd llawer llai o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd gymorth nag y dymunai Llywodraeth Cymru. Er bod COVID-19 yn ffactor, roedd y cynllun gryn ffordd y tu ôl i'r targedau cyn i'r pandemig gyrraedd. Nod y cynllun oedd targedu clystyrau o gartrefi mewn ardaloedd difreintiedig a oedd yn aneffeithlon iawn o ran ynni. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o glystyrau o'r fath sy'n dal i fodoli."*[65]

**68.** Canfu'r Archwilydd Cyffredinol mai "cyfyngedig oedd effaith" y newidiadau a wnaed i'r contract i gyflymu'r broses o gyflawni a bod £7.5 miliwn o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi'u dadneilltuo o Arbed gan nad oedd y cynllun yn gallu gwario ei gyllideb. Nid oedd Llywodraeth Cymru ychwaith yn gallu symud y cyllid hwn i'r cynllun Nyth gan nad oedd gan y darparwr y gallu i gynyddu'r ddarpariaeth. Argymhellodd yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru adolygu "ymarferoldeb parhaus y dull ar sail ardal a ddefnyddir gan gynllun Arbed" o ystyried ei fod yn tangyflawni.[66]

**69.** Wrth i'r Cynllun gael ei ddirwyn i ben, comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research i werthuso Arbed. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Chwefror 2022.[67] Nid oedd gwerthusiad Arbed yn gallu cynnal asesiad cadarn o'r effaith a gafodd y cynllun ar lefelau tlodi tanwydd. Roedd hyn oherwydd diffyg data cyn gosod yn ymwneud â gwariant ar ynni neu incwm yr aelwyd gan nad oedd cymhwysedd yn seiliedig ar fodd unigolion neu aelwydydd.[68]

**70.** Roedd tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn yn dangos cefnogaeth gyffredinol i gynllun seiliedig ar ardal, er gwaethaf diffygion a adroddwyd o ran cyflwyno Arbed.[69] Dadleuodd Jonathan Cosson o Cymru Gynnes mai rhai o fanteision cynlluniau seiliedig ar ardal oedd mwy o

---

[65] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021
[66] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021
[67] Llywodraeth Cymru/Miller Research, Gwerthusiad o Arbed 3 – 28 Chwefror 2022
[68] Llywodraeth Cymru/Miller Research, Gwerthusiad o Arbed 3 – 28 Chwefror 2022
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal a Thrwsio Cymru, Sefydliad Bevan, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Iechyd Cyhoeddus Cymru

gefnogaeth gymunedol ac arbedion maint. Tra'n cydnabod effaith Brexit, a'r pandemig, disgrifiodd Mr Cosson y bwlch rhwng diwedd Arbed a'i olynydd fel un siomedig a'i fod bellach yn fwlch mawr o ran dull seiliedig ar ardal.[70]

**71.** Dywedodd Gweithredu Ynni Cenedlaethol fod "teilyngdod sylweddol" ar gyfer parhau â dull gweithredu seiliedig ar ardal a oedd yn cynnwys:

- Arbedion maint: gan fod targedu'n gweithio ar sail yr ardal, gall gosodwyr lleol weithio fesul stryd, yn hytrach nag ar wasgar ar draws ardaloedd.
- Effaith ar gymdogaethau: mae aelwydydd yn fwy tebygol o fanteisio ar y cynnig o welliannau effeithlonrwydd ynni os gallant weld bod eu cymdogion hefyd yn manteisio ar y cynnig.
- Manteision economaidd: gallai crynhoi'r arbedion ynni mewn ardal benodol arwain at fuddion economaidd lleol mwy sylweddol. Wrth i gostau ynni ostwng, mae pŵer gwario yn cynyddu.[71]

**72.** Dadleuodd un cyfranogwr yn ein gwaith ymgysylltu y dylai olynydd Arbed sefydlu glasbrint "pentref enghreifftiol" lle: "dylai'r holl eiddo a gafodd gyfres o fesurau effeithlonrwydd ynni yn ystod y cam cyntaf gael eu harolygu eto gan nodi llinell sylfaen ansawdd. Yna gellid cyflwyno mesurau ychwanegol, fel rhagor o baneli, storio ynni, inswleiddio a chynlluniau ymgysylltu â phreswylwyr, yn ystod ail gam. Y bwriad fyddai sefydlu glasbrint i'w ddilyn mewn meysydd eraill."[72]

**73.** Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi nodi bod y dull seiliedig ar ardal yn galluogi gwneud gwelliannau inswleiddio mewn fflatiau a therasau o dai a fyddai naill ai'n amhosibl neu'n llawer mwy anodd ar lefel eiddo unigol.[73] Roedd yn tynnu sylw at lwyddiant cynllun sy'n cynnwys awdurdodau lleol a Llywodraeth yr Alban sydd wedi sicrhau gwelliannau i dros 100,000 o aelwydydd drwy ddull seiliedig ar ardal ers 2013.[74]

## Rôl awdurdodau lleol

**74.** Canfu adroddiad gwerthuso Arbed fod cyfranogiad awdurdodau lleol wedi amrywio, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau capasiti, gyda rhai'n gweithio'n rhagweithiol gydag Arbed am

[70] Cofnod y Trafodion, paragraffau 16 ac 17 – 14 Chwefror 2022
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu Ynni Cenedlaethol
[72] Crynodeb o weithgarwch ymgysylltu
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Byth tra bod eraill yn cyfrannu ychydig iawn. Mynegodd rhai awdurdodau lleol bryder fod y dull gweithredu a arweiniwyd gan Arbed am Byth yn golygu nad oedd ganddynt reolaeth dros gynlluniau ac y byddai wedi bod yn well ganddynt gydweithio'n agosach, yn enwedig ym maes cyfathrebu ac ymgysylltu.[75] Cadarnhawyd hyn yn y dystiolaeth a gawsom pan ddywedodd Cyngor Sir Ynys Môn:

> *"[Mae'n] deg dweud mai sporadic ydy ein perthynas ni wedi bod hefo Arbed am Byth, ac mae'n dibynnu wedyn ar ba ddata sydd gennym ni. Dŷn ni, yn y gorffennol, wedi gweithio'n agos ar gynlluniau; ar droeon eraill, dydyn ni ddim wedi cael dim cysylltiad â chynlluniau, ond eto dŷn ni i fod yna yn hyrwyddo'r cynllun."*[76]

**75.** Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn fod awdurdodau lleol wedi bod yn brin o'r adnoddau i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cynlluniau Nyth ac Arbed ac y dylid darparu cyllid refeniw i awdurdodau lleol i gynorthwyo gyda gweithredu yn y dyfodol ochr yn ochr â gwell cydweithio a chyfathrebu ag awdurdodau lleol yn fwy cyffredinol.[77]

**76.** Disgrifiodd awdurdodau lleol a gymerodd ran yng ngwerthusiad Arbed orfod ymdrin â'r canlyniadau pan na roddwyd y wybodaeth lawn i aelwydydd am eu cymhwysedd o'r cychwyn cyntaf. Disgrifiodd un awdurdod lleol hyn fel bod y cynllun wedi rhoi "llai nag a addawyd iddynt."[78]

## Cydweithio a phartneriaeth

**77.** Dadleuodd Victoria Winckler a Jonathan Cosson am fwy o gydweithio rhwng y Llywodraeth, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol lleol yn iteriad nesaf y Rhaglen. Pwysleisiwyd yr angen am gefnogaeth gymunedol a'r rôl y gallai cymunedau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth ei chwarae i sicrhau hyn.[79]

**78.** Yn yr un modd, nododd Elliw Llyr o Ynys Môn a Matthew Kennedy o Sefydliad Tai Siartredig Cymru ymgysylltiad cryf a chyson rhwng gwahanol sectorau – gan gynnwys awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r trydydd sector – fel nodwedd allweddol ar gyfer unrhyw gynllun olynol.[80]

---

[75] Llywodraeth Cymru/Miller Research, Gwerthusiad o Arbed 3 – 28 Chwefror 2022
[76] Cofnod y Trafodion, paragraff 128 – 14 Chwefror 2022
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ynys Môn
[78] Llywodraeth Cymru/Miller Research, Gwerthusiad o Arbed 3 – 28 Chwefror 2022
[79] Cofnod y Trafodion, paragraffau 57-58 a 62 – 14 Chwefror 2022
[80] Cofnod y Trafodion, paragraffau 161-166 – 14 Chwefror 2022

**79.** Tynnodd Dr Donal Brown o'r New Economics Foundation sylw at y defnydd o rwydweithiau cymunedol fel gwers bwysig i'w dysgu ar gyfer unrhyw gynllun olynol:

> *"In terms of the partnerships, local government obviously has a huge role. Some of the big private sector organisations are really important as well, some of the big manufacturers, and getting them onside. But also, really, community organisations. [...] The idea is using those community networks to build trust in a specific place—whether that's sports clubs, whether that's faith organisations, whether it's any particular grouping—and using those conversations as a way in to speak to people about this agenda, particularly thinking about minority groups and how you access them and build trust. I think that kind of community strategy is going to be important here, because obviously we're going into people's houses and mucking around with them, so you need to build the trusted relationships through those existing channels. I think that is an area that could be strengthened in future programmes, thinking about the community networks and how you engage with people."*[81]

### Brand y gellir ymddiried ynddo?

**80.** Yn wahanol i Nyth, ni chafodd rhaglen Arbed ei hymestyn a daeth i ben ddiwedd 2021. Amlinellodd rhanddeiliaid rai o effeithiau hyn fel diffyg hyder ymhlith defnyddwyr, colli ymddiriedaeth mewn brand hysbys, a diffyg hyder cyflenwyr/y diwydiant.

**81.** Clywsom y dylid cadw Nyth ac Arbed o safbwynt brand fel bod cynlluniau yn y dyfodol yn elwa ar gydnabyddiaeth brand bresennol.[82]

## Materion o ran contract a chaffael

**82.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol mai dim ond meincnodi cyfyngedig a gyflawnwyd cyn dyfarnu'r Contractau Nyth ac Arbed a bod "angen tynhau contractau yn y dyfodol er mwyn ceisio sicrhau mwy o gysondeb o ran costau ac annog gwell gwerth am arian".[83] Wrth ddyfarnu'r contractau, dim ond dau gynnig a gafodd Llywodraeth Cymru ar gyfer pob cynllun, a oedd yn rhwystro cyfleoedd i feincnodi.[84]

[81] Cofnod y Trafodion, paragraff 58 – 7 Mawrth 2022
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig; Cofnod y Trafodion, paragraff 211 – 7 Mawrth 2022
[83] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021
[84] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2

**83.** Roedd "gwahaniaethau sylweddol" o ran faint yr oedd y ddau gynllun yn ei godi ar Lywodraeth Cymru i gyflenwi a gosod yr un mesurau effeithlonrwydd ynni.[85] Rhybuddiodd yr adroddiad:

> *"Mae risgiau i werth am arian hefyd oherwydd y ffordd y mae'r contractau'n nodi pa waith y mae angen i gontractwyr ei wneud i gael eu talu. Yn benodol, mae'n bosibl y gall contractwyr hawlio taliadau sefydlog llawn ar gyfer mesurau goleuadau neu ddŵr pan na fyddant ond yn gosod ychydig o fylbiau golau neu awyryddion ar dapiau yn rhan o becyn ehangach o fesurau effeithlonrwydd ynni."*[86]

**84.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at Nwy Prydain/Centrica ar hyn yn benodol, a nodwyd y cafodd yr holl brisiau cyfredol a gyflwynwyd gan Nyth eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar adeg cyflwyno Tendr ar gyfer Nyth 2.[87]

**85.** Amlygodd adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ddiffyg data monitro cadarn fel gwendidau yn y Rhaglen. Disgrifiodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y diffyg data monitro fel "pryder difrifol" a galwodd am "fframwaith monitro a gwerthuso cadarn" i werthuso effaith y cynllun.[88] Yn yr un modd, nododd adroddiad Archwilio Cymru fod angen mwy o waith craffu ar gyflawni, monitro cydymffurfiad contract yn agosach a gwell gwybodaeth reoli.

**86.** Roedd gosodiadau o ansawdd gwael wedi niweidio cartrefi pobl mewn fersiynau blaenorol o'r rhaglen Arbed a chanfu Archwilio Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi dysgu o hyn drwy logi cwmni annibynnol i wirio gosodiadau a dilysu data perfformiad. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad fod ôl-groniad o arolygiadau a nad yw "rhai elfennau eraill o'r swyddogaeth sicrhau ansawdd ac archwilio wedi eu cyflawni'n llawn hyd yma."[89]

## Hygyrchedd a rhwystrau mynediad

**87.** Amlygodd Cymru Gynnes rwystrau gyda phroses ymgeisio Nyth. Er gwaethaf y ffaith bod gan aelwydydd ag anghenion cymhleth statws â blaenoriaeth, awgrymodd Cymru Gynnes eu bod yn cael cryn drafferth cael gafael ar gymorth oherwydd cymhlethdodau'r broses (Nyth), gan

---

[85] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021
[86] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021
[87] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llythyr gan Centrica ynghylch yr ymchwiliad i'r Rhaglen Tlodi Tanwydd a Chartrefi Clyd – 20 Ebrill 2022
[88] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Adroddiad ar dlodi tanwydd yng Nghymru – Ebrill 2020
[89] Archwilio Cymru, Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2021

godi cwestiynau ynghylch cydraddoldeb a hygyrchedd y cymorth.[90] Roedd Cymru Gynnes yn argymell un pwynt cyswllt ar gyfer aelwydydd.

**88.** Roedd cyfathrebu gwael yn thema yn y cyfweliadau un-i-un a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'n hymchwiliad. Teimlai llawer nad oedd Arbed wedi gallu rhoi cyfiawnhad tryloyw dros benderfyniadau a wnaed, yn enwedig pan fyddai rhai yn elwa o'r cynllun, tra na fyddai eraill mewn amgylchiadau tebyg yn elwa.

**89.** Dywedodd un cyfrannwr o Gonwy a oedd wedi defnyddio'r cynllun Arbed:

> *"Roedd pobl yn ysu am gael rhywbeth ac unwaith eto, roedd y cyfathrebu gan Arbed yn ofnadwy. Roedd tai ar rai strydoedd yn cael cynnig paneli solar. Roedden nhw'n rhoi rhyw ddeg neu ddeuddeg ar rai tai i ddechrau. Yna fe wnaethon nhw leihau'r nifer a dim ond gosod wyth ar ôl iddyn nhw eisoes osod deg i ddeuddeg ar rai tai … felly achosodd hynny anawsterau gan fod rhai wedi cael mwy nag eraill … a dweud y gwir, roedd e'n teimlo fel nad oedden nhw'n gwybod beth oeddent yn ei wneud."*

**90.** Dywedodd cyfranogwr a amlygwyd yn Astudiaeth Achos B: "… nid oeddent yn ymateb i negeseuon e-bost, roedden nhw ond yn siarad dros y ffôn a nid oeddent byth yn rhoi dim yn ysgrifenedig. Roedden nhw'n llusgo eu traed."[91]

**91.** Dywedodd rhanddeiliaid y gall costau gwaith galluogi fod yn afresymol i'r rhai sydd ar incwm is. Nododd Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni enghreifftiau, gan gynnwys y gost o gael EPC, ailweirio eiddo a gwella'r cysylltiad â'r grid trydan. Mae costau dilynol, fel ailaddurno a chostau gwasanaethu a chynnal a chadw blynyddol, yn berthnasol hefyd.[92]

**92.** Dywedodd Cymru Gynnes nad oedd y llinell gyngor bob amser yn darparu'r cymorth angenrheidiol i oresgyn y fath rwystrau a mynegodd bryderon ynghylch canslo atgyfeiriadau, gan nad oedd modd i'r ymgeiswyr ymgysylltu'n llawn.[93] Ychwanegodd Jonathan Cosson fod angen i'r cynllun olynol sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n well ac mewn modd cryno rhwng Nyth a'r perchennog tŷ, yn ogystal â sicrhau gwasanaeth mwy rhagweithiol.[94]

---

[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymru Gynnes
[91] Crynodeb o weithgarwch ymgysylltu
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu Ynni Cenedlaethol; Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymru Gynnes
[94] Cofnod y Trafodion, paragraffau 47-50 – 14 Chwefror 2022

## Barn Llywodraeth Cymru

**93.** Nododd y Gweinidog fod mwy o gydweithredu yn allweddol i lwyddiant y Rhaglen nesaf. O ran rôl awdurdodau lleol, cydnabu'r Gweinidog fod lefelau ymgysylltu rhwng awdurdodau a'r Rhaglen yn amrywio. Yn y Rhaglen olynol roedd am i'r berthynas ag awdurdodau lleol fod yn un agos iawn.[95]

**94.** O ran ad-dalu cost gwaith galluogi, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cytuno y gall cymorth ariannol annigonol fod yn rhwystr i helpu'r bobl sydd fwyaf mewn angen ac y caiff ei ystyried fel rhan o'r gwaith ar iteriad nesaf y Rhaglen.[96]

**95.** O ran caffael, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad Ymchwil Adeiladau i archwilio'r farchnad bresennol yn y gobaith o gael ystod lawer ehangach o gynigwyr ar gyfer caffael cynlluniau olynol.[97]

### Ein barn ni

#### Arbed a dull seiliedig ar ardal

O ran yr olynydd i Arbed, nodwn fod y dystiolaeth, at ei gilydd, o blaid cadw dull seiliedig ar ardal i redeg ochr yn ochr â chynllun a arweinir gan alw. Ymhlith manteision dull seiliedig ar ardal a amlygwyd roedd: arbedion maint, gwell effaith ar y gymdogaeth a chefnogaeth gymunedol ac – o'i gaffael yn dda – manteision economaidd posibl i gymunedau lleol. At hynny, mae angen dull seiliedig ar ardal ar gyfer ymyriadau ar rai mathau o adeiladau, er enghraifft inswleiddio waliau allanol ar floc o fflatiau neu deras.

Yn gyffredinol, rydym yn siomedig bod cynllun Arbed wedi tanberfformio a thangyflawni. Nid oes dim yn dangos y pwynt hwn yn fwy na'r £7.5 miliwn o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru, heb ei wario, gan Arbed.

Wrth baratoi ar gyfer cynllun newydd yn seiliedig ar ardal, mae ein gwaith wedi canfod y bydd angen llawer mwy o bwyslais ar gydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y cynllun, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, ac eraill. Mae angen strategaeth ymgysylltu â'r gymuned ar unrhyw gynllun newydd sy'n seiliedig ar ardal er mwyn sicrhau bod ymdeimlad cryfach o lawer o ymrwymiad ymhlith cymunedau lleol. Credwn hefyd y dylid ymchwilio ymhellach i ddull "pentref enghreifftiol" lle mae cynllun seiliedig ar ardal yn targedu pentref cyfan er mwyn sefydlu

[95] Cofnod y Trafodion, paragraff 37 – 21 Mawrth 2022
[96] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2
[97] Cofnod y Trafodion, paragraff 51 – 21 Mawrth 2022

gwaelodlin o ansawdd a glasbrint ar gyfer trefi a phentrefi eraill. Rydym yn ymwybodol o arfer gorau rhyngwladol y gellid ei ddefnyddio, megis Freiburg, yr Almaen y gellid edrych arno yn hynny o beth.

Dangosodd gwerthusiad Arbed fod lefelau ymgysylltiad awdurdodau lleol â'r cynllun yn anghyson ac fel arfer yn cael ei ystyried yn "ychwanegiad" i'r swydd o ddydd i ddydd yn hytrach nag arddangosiad o weithio mewn partneriaeth. Dylai'r cynllun newydd ymgysylltu'n gyson ag awdurdodau lleol a gweithio mewn partneriaeth wirioneddol â hwy o ran agweddau ar gyflawni megis hyrwyddo, nodi meysydd, eiriolaeth o'r cynllun a chydweithio â gwasanaethau lleol eraill. Gallai cyfran o gyllid rheoli'r cynllun gael ei neilltuo i gefnogi gwaith partneriaeth o'r fath, os oes angen.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun seiliedig ar ardal yn y dyfodol yn blaenoriaethu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y cynllun, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol ac eraill.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o fanteision ac anfanteision treialu'r dull "pentref enghreifftiol" o dargedu pentref yn ei gyfanrwydd er mwyn sefydlu glasbrint i drefi a phentrefi eraill ei efelychu. Dylai'r asesiad hwn ystyried gwaith ymchwil presennol ac enghreifftiau o arfer gorau rhyngwladol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun seiliedig ar ardal yn y dyfodol yn datblygu strategaeth ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r rhwydweithiau presennol, a bod ymdeimlad cryfach o lawer o ymrwymiad ymhlith cymunedau lleol.

### Materion o ran contract a chaffael

Roedd gan y broses gaffael ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol nifer o ddiffygion yn ôl adroddiad Archwilio Cymru. Dim ond meincnodi cyfyngedig iawn a wnaed cyn dyfarnu contractau, a dim ond dau gynnig yr un a ddaeth i law.

Canfu'r archwiliad o reolaeth y cynllun ei hun nifer o ddiffygion gan gynnwys: diffyg cysondeb o ran costau; gwaith monitro annigonol o ran cydymffurfiad â chontractau; a diffyg data cadarn o ran monitro a gwerthuso. Mae diffyg data o ran cydymffurfiad â chontractau a gwaith monitro yn cynnig eglurhad rhannol pam y caniatawyd i ddiffygion yng nghynllun y Rhaglen barhau heb oruchwyliaeth ddigonol na her gadarn yn ystod cyfnod y Rhaglen. Mae angen dylunio hyn allan

o’r rhaglen olynol. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru[98] yn nodi ei bod yn rhagweld dull graddol sy’n ystyried ffactorau a all newid neu sydd y tu hwnt i’w rheolaeth megis arloesedd technolegol, costau, a fforddiadwyedd. Mae beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol yn aneglur, ac mae’n debygol o gael ei siapio’n rhannol gan gyfnod a hyd y Rhaglen nesaf. Rydym yn cymeradwyo’r nod o weithredu’n raddol a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried adolygiadau cyfnodol o’r Rhaglen i ganfod a yw’n cyflawni yn erbyn ei hamcanion. Er mai mater i Lywodraeth Cymru yn y pen draw yw penderfynu ar y dilyniant, byddem yn disgwyl i adolygiad ddigwydd hanner ffordd o leiaf.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr iteriad nesaf o’r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cynnwys fframwaith cadarn ar gyfer casglu, monitro a gwerthuso data a fydd yn cynorthwyo’r broses o reoli a chydymffurfio â chontractau ac yn galluogi mesur canlyniadau’n well ac archwiliad rheolaidd.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae’n bwriadu i’w dull graddol yn y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf weithio’n ymarferol. Rydym yn argymell bod y dull graddol yn cael ei ategu gan adolygiadau cyfnodol i ganfod a yw’r Rhaglen yn cyflawni yn erbyn ei hamcanion. Byddai nifer a dilyniant unrhyw adolygiad cyfnodol o’r fath yn dibynnu’n rhannol ar gyfnod a hyd y Rhaglen, fodd bynnag, byddem yn disgwyl i adolygiad ddigwydd hanner ffordd o leiaf.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i’r adroddiad hwn pa gamau y mae wedi’u cymryd i sicrhau na all y camgymeriadau a wnaed fel rhan o’r broses o gaffael a rheoli contract y cynllun presennol gael eu hailadrodd mewn ymarfer neu gynllun caffael arall gan y llywodraeth yn y dyfodol.

Nodwyd rhai gwelliannau rhwng Arbed 2 a chynllun presennol Arbed 3 yn adroddiad Archwilio Cymru. Er enghraifft, yn wahanol i fersiynau blaenorol, cafodd cwmni annibynnol y dasg o sicrhau ansawdd ar ffurf gwiriadau ar osodiadau a dilysu data perfformiad.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan yr iteriad nesaf o’r Rhaglen Cartrefi Clyd drefn sy’n addas at y diben ar gyfer sicrhau ansawdd, sy’n cynnwys:

- rhaglen o wiriadau ar ôl gosod i’w gwneud gan drydydd parti annibynnol; a
- phrosesau cadarn ar gyfer casglu, dadansoddi a storio data perfformiad.

---

[98] Gweler Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr iteriad nesaf o’r Rhaglen Cartrefi Clyd

### Hygyrchedd y Rhaglen

Fel Rhaglen sy’n targedu teuluoedd ac aelwydydd a allai fod yn agored i niwed, mae’n hollbwysig bod gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd gwahanol. Roedd yn siomedig cael tystiolaeth gan ddefnyddwyr a oedd yn gweld Nyth yn rhy gymhleth ac anodd ei lywio. Dylai’r cyngor a ddarperir gan Nyth gynnwys cyfeirio’n rhagweithiol at gymorth a chefnogaeth arall gan y llywodraeth, a dylid ystyried dull llwyth achosion o ymdrin â theithiau defnyddwyr.

Mae angen edrych hefyd ar y gwaith galluogi, fel y’i gelwir, sy’n cwmpasu’r broses o wella effeithlonrwydd ynni, megis ailaddurno. Gorfodwyd rhai aelwydydd incwm isel i dalu costau mawr nas rhagwelwyd. Dylai’r cynllun olynol geisio talu’r costau hyn yn achos y teuluoedd incwm isaf; ac ym mhob achos sicrhau bod cyfranogwyr yn ymwybodol o unrhyw gostau cudd y byddant yn atebol amdanynt ymlaen llaw.

**Argymhelliad 16.** Dylai’r iteriad nesaf o’r Rhaglen Cartrefi Clyd geisio talu am gost ‘gwaith galluogi’ megis ailaddurno yn enwedig yn achos y teuluoedd incwm isaf, a sicrhau bod pawb sy’n cymryd rhan yn y cynllun yn ymwybodol o unrhyw gostau cudd y byddant yn eu hwynebu ymlaen llaw.

# 5. Datgarboneiddio a chynlluniau yn y dyfodol

Mae'r newid i Gymru ddi-garbon yn un o heriau mwyaf y blynyddoedd a'r degawdau i ddod. Bydd arweinyddiaeth gan y llywodraeth, yn enwedig wrth wneud dewisiadau anodd, yn hanfodol.

## Datgarboneiddio tai

**97.** Mae Cynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd gwres carbon isel yn elfen allweddol o'r fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd.[99] Yn ei hymgynghoriad ar Raglen newydd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd sy'n disgwyl i'r gostyngiadau mwyaf cyflym mewn allyriadau ddigwydd yn y degawd ar ôl 2025 gan na fydd technolegau carbon isel wedi'u cyflwyno'n ddigonol cyn hynny.[100]

**98.** Yn 2021, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol adroddiad ar y cyd â'r New Economics Foundation yn edrych ar yr opsiynau ariannu ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru.[101] Amlygodd fod 10 y cant o allyriadau carbon Cymru yn dod o'r sector preswyl. Er mwyn datgarboneiddio stoc tai Cymru ar y raddfa sydd ei hangen, bydd angen buddsoddiad sylweddol a mwy o gydgysylltu rhwng pawb. Awgrymodd y bydd angen buddsoddiad o £14.75 biliwn dros y degawd nesaf (hyd at 2030) ar gyfer rhaglen ddatgarboneiddio genedlaethol, sef:

- £5.5 biliwn ar gyfer tai cymdeithasol;
- £4.8 biliwn ar gyfer cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd; a
- £4.4 biliwn ar gyfer cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat (y sectorau sy'n 'gallu talu').

**99.** O'r £14.75 biliwn o fuddsoddiad sydd ei angen i ddatgarboneiddio a gwella safon cartrefi Cymru, mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai £3.6 biliwn ddod o goffrau Llywodraeth y DU ac

[99] Llywodraeth Cymru, Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25)
[100] Llywodraeth Cymru, Gwella effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi pontio cyfiawn a Chymru wyrddach - Rhagfyr 2021
[101] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol/New Economics Foundation, Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod

£1.7 biliwn gan Lywodraeth Cymru, gyda 64 y cant o'r cyfanswm a fuddsoddir yn dod o gyllid preifat, cwmnïau ynni neu berchnogion eiddo sy'n talu dros eu hunain. Mae'n nodi:

> *"Yn seiliedig ar gynlluniau buddsoddi a chynigion polisi presennol, mae bylchau mawr mewn cyllido ar gyfer tai cymdeithasol (£2.7bn) a thai sy'n dioddef tlodi tanwydd (£3.9bn) a rentir yn breifat ac a breswylir gan berchennog i gwrdd â lefel EPC 'A' erbyn 2030."*[102]

**100.** Roedd yr adroddiad yn rhagweld y gallai rhaglen ôl-osod genedlaethol ddileu tlodi tanwydd a lleihau costau ynni diangen, gan arbed cyfanswm o £8.3 biliwn mewn costau tanwydd erbyn 2040 a chreu 26,500 o swyddi.[103]

**101.** Dywedodd Gweithredu Ynni Cenedlaethol y gallai uwchraddiadau ffabrig i'r cartref, fel inswleiddio wal neu atig, a oedd yn bosibl ond yn anaml yn cael ei ddefnyddio o dan y rhaglen gyfredol, fod yn ateb parhaol i filiau is.[104]

**102.** Amlygodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y gallai buddsoddi mewn cartrefi fod o fudd i iechyd pobl hefyd, gan awgrymu enillion hirdymor ac arbedion cost i'r GIG.[105] Dadleuodd y Comisiynydd dros alinio polisi'n well â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

> *"The Government do have obligations under the Future Generations Act to demonstrate how they're doing the things that best meet the well-being objectives that they've set, which prevent problems from occurring or getting worse, which are long term and which are integrated. And I would say that this is a prime policy area and the things that we're proposing in our report absolutely tick all of those boxes. So, it comes down to some brave decision making. If you wanted to be really out there, you could say, 'Top-slice the NHS budget and invest some of that money into this area.' However, I doubt that that would be politically palatable. But, if we're actually looking at the data around where people's health is improved and what the key factors in health are, there's a lot of strong evidence to suggest that investing in*

[102] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol/New Economics Foundation, Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod
[103] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol/New Economics Foundation, Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod
[104] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu Ynni Cenedlaethol
[105] Cofnod y Trafodion, paragraff 14 – 7 Mawrth 2022

> *improving the quality of people's homes actually has much bigger, longer term benefits."*[106]

### Datgarboneiddio tai ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

**103.** Yn ganolog i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, fel yr amlinellwyd yn ei hymgynghoriad diweddar, mae'r syniad o sicrhau "pontio cyfiawn i wresogi carbon isel fforddiadwy i bob aelwyd yng Nghymru [...] Gellir cyflawni hyn trwy wella effeithlonrwydd ynni a thermol ein cartrefi a lleihau ein dibyniaeth ar losgi tanwydd ffosil yn y cartref."[107]

**104.** Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn awgrymu y bydd angen dull "graddol" neu "drosiannol" i osod boeleri newydd yn lle'r rhai llosgi tanwydd ffosil. Mae'n amlygu tri rheswm:

- Arloesedd: bydd datgarboneiddio yn gofyn am dechnolegau a gwasanaethau arloesol newydd ar gyfer cynhyrchu, cyflenwi, storio a thalu ynni a gwres a byddai'n annoeth gosod y Rhaglen ar un llwybr sengl yn rhy gynnar;
- Cydbwyso Tlodi Tanwydd a Gwresogi Carbon Isel: a'r angen i ystyried y tensiwn rhwng amcanion tlodi tanwydd a datgarboneiddio; a
- Chostau a Fforddiadwyedd: bydd angen hyblygrwydd i sicrhau nad yw aelwydydd yn cael eu cloi i mewn i dechnolegau gwresogi sydd wedi dyddio, neu dechnolegau gwresogi carbon is newydd a all achosi costau rhedeg gormodol yn y farchnad ynni domestig bresennol.[108]

## Ymagwedd 'ffabrig yn gyntaf'

**105.** Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid yr angen am ddull 'ffabrig yn gyntaf' yn iteriad nesaf y Rhaglen, ac adlewyrchwyd hyn yng nghynigion ymgynghori Llywodraeth Cymru. Mae 'dull ffabrig yn gyntaf' yn golygu bod yr ynni sydd ei angen i gynhesu'r cartref yn cael ei leihau drwy fesurau sy'n lleihau colledion gwres ac yn rheoleiddio cynhesu ac oeri'r cartref yn well.[109]

---

[106] Cofnod y Trafodion, paragraff 97 – 7 Mawrth 2022
[107] Llywodraeth Cymru, Gwella effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi pontio cyfiawn a Chymru wyrddach - Rhagfyr 2021
[108] Llywodraeth Cymru, Gwella effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi pontio cyfiawn a Chymru wyrddach - Rhagfyr 2021
[109] www.carbonfutures.co.uk/view-service/fabric-first-solutions#:~:text=A%20'fabric%20first'%20approach%20to,or%20electrical%20building%20services%20systems.

**106.** Mae data ar eiddo wedi'u hinswleiddio yn ôl deiliadaeth a gasglwyd drwy Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn awgrymu bod: 100 y cant o dai cymdeithasol wedi'u hinswleiddio rhywfaint ar do a waliau ceudod heb eu hinswleiddio; mae'r gyfran yn debyg ar draws pob deiliadaeth. Y sector rhentu preifat sydd â'r gyfran uchaf o waliau solet heb eu hinswleiddio, sef 39 y cant.[110]

**107.** Roedd Cyngor Sir Ynys Môn, Cymru Gynnes, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Gweithredu Ynni Cenedlaethol a Cartrefi Cymunedol Cymru i gyd yn argymell rhoi mwy o bwyslais ar "ddull ffabrig yn gyntaf" yn y dyfodol.[111]

## Datgarboneiddio neu drechu tlodi tanwydd

**108.** Dywed Llywodraeth Cymru y bydd deall effaith datgarboneiddio ar aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn allweddol wrth iddi geisio datblygu "llwybr clir" at wresogi carbon isel rhwng nawr a diwedd y 2020au. Ar gyfer y Rhaglen newydd, mae ei hymgynghoriad yn gofyn a ddylid blaenoriaethu amcanion cyfiawnder cymdeithasol neu amcanion o ran yr argyfwng hinsawdd.[112]

**109.** Mae Sefydliad Bevan yn dadlau na all un rhaglen fod yn gyfrifol am y ddau nod o leihau tlodi tanwydd a datgarboneiddio cartrefi, gan nodi:

> *"Whilst the two objectives are clearly linked, we believe that the Warm Homes Programme was undermined by not having a clear aim. As a result, the programme did not adequately meet either objective."*[113]

**110.** Awgrymwyd datblygu dwy raglen – un i ganolbwyntio'n bennaf ar ddatgarboneiddio tai, a'r ail i ganolbwyntio'n benodol ar dlodi tanwydd. Dylai'r cyntaf fod ar agor i bob aelwyd sy'n byw mewn cartrefi sy'n aneffeithlon o ran ynni, a darparu cymorth a chyngor ariannol. Dylai'r ail ganolbwyntio ar fesurau y tu hwnt i ôl-osod eiddo, gan sicrhau bod aelwydydd sydd wedi cymryd pob mesur posibl i wella effeithlonrwydd ynni, ond sy'n dal i gael trafferth â chostau ynni, yn cael cymorth.

**111.** Fodd bynnag, dadleuodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Dr Donal Brown o'r New Economics Foundation y byddai mwy o gydgyfeirio yn y tymor hwy rhwng trechu tlodi tanwydd a datgarboneiddio a phwysleisiwyd yr angen am ddull cyfannol, integredig.[114] Roedd Jack Wilkinson-Dix o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni hefyd yn gwrthbrofi'r awgrym bod

---

[110] Ystadegau ar gyfer Cymru, Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: adroddiad penawdau (diweddaru)
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ynys Môn, Cymru Gynnes, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Gweithredu Ynni Cenedlaethol. a Cartrefi Cymunedol Cymru
[112] Llywodraeth Cymru, Gwella effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi pontio cyfiawn a Chymru wyrddach - Rhagfyr 2021
[113] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[114] Cofnod y Trafodion, paragraff 155 – 7 Mawrth 2022

datgarboneiddio a threchu tlodi tanwydd yn groes i'w gilydd gan ddweud bod y ddau wedi'u halinio a bod yr angen i wella effeithlonrwydd ynni ac inswleiddio pob eiddo, ni waeth beth fo'u system wresogi, yn golygu eu bod mewn gwirionedd wedi'u halinio'n agos iawn.[115]

**112.** Amlinellodd Ben Saltmarsh o Gweithredu Ynni Cenedlaethol eu pryderon ynghylch unrhyw gynllun yn y dyfodol sy'n methu â sicrhau bod trechu tlodi tanwydd y flaenoriaeth uchaf ochr yn ochr â datgarboneiddio. Dywedodd wrthym:

> *"What we wouldn't support is potentially having a decarbonisation programme on the one side, as I believe it may have been proposed elsewhere, focused on decarbonising all homes, housing for everybody, potentially including fuel-poor households, and then kind of have a separate programme that tries to provide some additional advice and support to fuel-poor households over here that is quite disconnected. Because even if that first programme, the programme that is decarbonisation focused, included fuel-poor households and required them to make no financial contributions, even if it then went on to help others, even if they made them more able to pay contributions themselves, it doesn't prioritise those who need it the most, who need this now. It doesn't prioritise fuel-poor households living in the least efficient homes where these are destroying their lives and their experience of home. So, any support for others can't come at the expense of fuel-poor households…"*[116]

## Sgiliau a'r gweithlu

**113.** Cafodd y diffyg gweithlu â sgiliau gwyrdd yng Nghymru ar y raddfa sydd ei hangen i ateb yr her o ddatgarboneiddio stoc tai Cymru a chyrraedd y targed sero net ei amlygu yn y dystiolaeth.

**114.** Dywedodd y New Economics Foundation fod strategaeth hirdymor yn hollbwysig ac y byddai nid yn unig yn anfon signal i ddefnyddwyr, ond hefyd i'r diwydiant i fuddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.[117] Dywedodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru fod angen meddwl ymlaen llaw am y math o dechnoleg a fydd yn cael ei defnyddio, a pham, a datblygu dull cynlluniedig o hyfforddi'r gweithlu.[118]

---

[115] Cofnod y Trafodion, paragraff 215 – 7 Mawrth 2022
[116] Cofnod y Trafodion, paragraff 211 – 7 Mawrth 2022
[117] Cofnod y Trafodion, paragraff 9 – 7 Mawrth 2022
[118] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Tai Siartredig Cymru

**115.** Dywedodd Jonathan Cosson o Cymru Gynnes wrthym nad oes gan Gymru ar hyn o bryd bobl sydd â'r sgiliau a'r gallu cywir i gyflawni ei huchelgeisiau o ran tlodi tanwydd a datgarboneiddio.[119] Dywedodd Jack Wilkinson-Dix o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn yr un modd, o ystyried maint yr her, fod angen gwneud llawer mwy i wella sgiliau a pharatoi'r gweithlu.[120]

**116.** Tynnodd Ben Saltmarsh o Gweithredu Ynni Cenedlaethol sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru osod targedau interim i roi'r hyder sydd ei angen ar y diwydiant a chadwyni cyflenwi. Roedd Mr Saltmarsh yn argymell cynllun statudol a nodir mewn deddfwriaeth (yn hytrach na chanllawiau Llywodraeth Cymru). Dadleuodd y byddai hyn yn rhoi'r hyder sydd ei angen ar aelwydydd, sefydliadau partner a diwydiant o un flwyddyn i'r llall.[121]

**117.** Adleisiodd Sophie Howe yr angen am gynllun hirdymor i roi'r hyder i fusnesau fuddsoddi mewn sgiliau a'r gweithlu. Pwysleisiodd bwysigrwydd dull cydgysylltiedig:

> *"From a Welsh perspective, certainly, we need to be working through very closely with the work that's been going on in terms of foundational economy and really plotting out who are the Welsh organisations out there who are doing this work, could increase the scale and pace at which they do this work, what sort of help do they need to do that, who are the very small enterprises who could be having assistance to do more of this work, and so on. And that's why the kind of join-up across Government departments and policies is really important on this."*[122]

**118.** Roedd Cynllun Sero Net Cymru yn cynnig cynllun gweithredu sgiliau sero net, ond nid yw wedi'i gynhyrchu eto. Ar 8 Mawrth cyfeiriodd Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru at gynllun sgiliau sero net a oedd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2022.[123]

## Cyllid ac ardollau amgylcheddol

**119.** Cyfrifodd yr adroddiad ar y cyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r New Economics Foundation fod angen o leiaf £73 miliwn y flwyddyn i ariannu effeithlonrwydd ynni pob tŷ yng Nghymru, hyd at 2030, gyda'r arian wedi'i bennu ar gyfer hanner cyntaf y degawd.

[119] Cofnod y Trafodion, paragraff 105 – 14 Chwefror 2022
[120] Cofnod y Trafodion, paragraffau 224-226 – 7 Mawrth 2022
[121] Cofnod y Trafodion, paragraffau 228-230 – 7 Mawrth 2022
[122] Cofnod y Trafodion, paragraff 82 – 7 Mawrth 2022
[123] Llywodraeth Cymru, Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau – Mawrth 2022

Fodd bynnag, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfanswm o £100 miliwn ar gyfer y tair blynedd nesaf, sef £30 miliwn, £35 miliwn a £35 miliwn y flwyddyn.[124]

**120.** Dywedodd Dr Donal Brown fod disgwyl i'r sector tai cymdeithasol ychwanegu at grantiau'r llywodraeth gydag ariannu dyledion cost isel yn llawn problemau gan eu bod eisoes yn eithaf dyledus, felly rhaid dyfeisio atebion eraill:

> *"We were presented with this wicked problem of, 'We can't take on debt, Government's not willing to fund more, so what do we do?' So, the idea is we create a third body that is potentially owned and underwritten by Welsh Government and also by the housing associations and the local authorities who still own stock. And that could actually, if it was sufficiently large—[…]—it could actually raise its own bonds in bond markets; issue, basically, green bonds. If it was underwritten by Government, it could raise that finance very cheaply, akin to a Government bond, so 1 per cent or 2 per cent interest. And using that, with a combination of that and grant funding and something called energy performance contracting—where you basically guarantee energy savings. It's been trialled in social housing around Europe; you could fill some of the funding gap for social housing in that way, and there is precedent for it."*[125]

**121.** Dadleuodd Dr Donal Brown fod yr ardollau amgylcheddol a godir ar filiau trydan yn cael eu talu'n anghymesur gan bobl ar yr incwm isaf ac yn cyfrif am tua 20 y cant o fil trydan. Er mwyn lleddfu'r argyfwng presennol mewn costau ynni a thlodi tanwydd awgrymodd Dr Brown symud yr ardollau i drethiant cyffredinol fel mesur byrdymor.[126]

**122.** Roedd Gweithredu Ynni Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cefnogi symud yr ardollau amgylcheddol o filiau trydan i drethiant cyffredinol. Dywedodd Jack Wilkinson-Dix o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wrthym fod yr ardollau amgylcheddol yn dal y broses o osod gwres trydan carbon isel yn ôl yn gyffredinol ac y byddai symud yr ardollau i drethiant cyffredinol yn gweld cost pympiau gwres a thrydan ar gyfer gwresogi yn gostwng, a fyddai'n eu gwneud yn gystadleuol o ran costau gyda nwy dan bron bob amgylchiad.[127]

**123.** Cadarnhaodd papur y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Drysorlys EM yn galw ar Lywodraeth y DU i gael gwared ar y costau cymdeithasol ac amgylcheddol sydd

---

[124] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23
[125] Cofnod y Trafodion, paragraffau 40-41 – 7 Mawrth 2022
[126] Cofnod y Trafodion, paragraff 62 – 7 Mawrth 2022
[127] Cofnod y Trafodion, paragraffau 200,207 – 7 Mawrth 2022

wedi'u hychwanegu at filiau ynni domestig.[128] Dadleuodd Llywodraeth Cymru y dylid talu am y rhain o drethi cyffredinol.

## Ein barn ni

Dros y degawd neu ddau nesaf, bydd y newid i sero net yn effeithio ar sawl agwedd ar ein bywydau. Bydd y newidiadau y bydd angen eu gwneud i stoc tai'r wlad, ar draws pob oedran a math o ddeiliadaeth, yn sylweddol. Bydd gan y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau bod atebion carbon isel neu ddi-garbon yng nghartrefi pobl yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n deg, yn effeithiol ac yn gyfiawn.

### Ffabrig yn gyntaf

Fel y nodwyd mewn penodau blaenorol, bu dibyniaeth drom ar ailosod boeleri yn y Rhaglen bresennol, ar draul atgyweirio boeleri, gwelliannau 'ffabrig yn gyntaf' a systemau gwresogi amgen neu adnewyddadwy. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd y Rhaglen olynol yn symud i ffwrdd o'r arfer presennol ac yn hytrach yn ymrwymo i ddull ffabrig a 'gwaethaf yn gyntaf' o ran ôl-osod tai. Rydym yn croesawu'r newid hwn ac yn nodi y byddai hyn yn dod â'r cynllun olynol yn unol â dewisiadau rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori'r dull ffabrig a 'gwaethaf yn gyntaf' o ran ôl-osod, gan dargedu'r aelwydydd tlotaf yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran tanwydd, yn egwyddorion craidd iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

### Datgarboneiddio

Rydym yn croesawu'n fawr y gwaith ar y cyd rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r New Economics Foundation ar ddatgarboneiddio ac ôl-osod. Mae'n gyfraniad pwysig i'r ddadl ac yn gosod gweledigaeth gadarnhaol o sut y gallai Cymru fod ar flaen y gad mewn Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd.

Mae cyfleoedd yn ogystal â risgiau i'r gweithlu yng Nghymru. Mae'r cyfle i greu nifer fawr o swyddi newydd, medrus iawn yn cael ei wrthbwyso gan bryderon ynghylch prinder llafur, a chapasiti hyfforddwyr i ateb y galw.

Neges glir o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym oedd yr angen i'r Llywodraeth nodi strategaeth hirdymor, i fod yn arwydd i fusnesau ac unigolion fuddsoddi yn y sgiliau, yr hyfforddiant a'r

[128] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2

cadwyni cyflenwi sydd eu hangen i droi gweledigaeth yn realiti. Er bod peth ansicrwydd ynglŷn â’r datrysiadau technolegol a fydd yn cael eu mabwysiadu yn y pen draw – fe all, ac fe ddylai’r gwaith o baratoi strategaeth hirdymor ddechrau nawr. Er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder o ran sgiliau i’r diwydiant, dylid cyhoeddi Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda’r sector i lunio strategaeth glir, hirdymor ar gyfer datgarboneiddio gyda’r nod o roi’r hyder sydd ei angen ar ddiwydiant i fuddsoddi mewn sgiliau, technoleg a phobl.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd a’r Pwyllgor hwn am y cynnydd tuag at gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net a dylai geisio ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na dechrau Toriad yr Haf y Senedd sydd wedi’i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2022.

O ran cyllid ar gyfer rhaglen tlodi tanwydd a datgarboneiddio yn y dyfodol, nodwn fod adroddiad ar y cyd Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol a’r New Economics Foundation yn awgrymu cyllideb o £732 miliwn dros ddeng mlynedd 2020-2030. Mae hyn gyfwerth â £73 miliwn y flwyddyn a llawer mwy na’r £100 miliwn dros dair blynedd y mae Llywodraeth Cymru wedi’i ddyrannu. Penderfynwyd ar y dyraniadau hyn cyn codi prisiau nwy naturiol a oedd yn cyd-daro â goresgyniad Wcráin. Gan fod prisiau nwy naturiol yn debygol o aros yn uchel hyd y gellir rhagweld byddai’n ddefnyddiol gwybod a yw’r Llywodraeth yn bwriadu ailwerthuso ei dyraniadau gwariant ac yn benodol a oes angen mwy o arian i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau’r galw.

**Argymhelliad 20.** Gyda’r potensial i brisiau nwy barhau i godi hyd y gellir rhagweld, ymhlith pryderon o’r newydd ynghylch diogelwch cyflenwadau ynni, dylai Llywodraeth Cymru nodi’r cyllid sydd ei angen i ymateb drwy adolygu digonolrwydd ei dyraniadau gwariant ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn tai. Dylai’r adolygiad hwn nodi unrhyw gamau gweithredu neu weithgareddau y gellir eu blaenoriaethu, eu huwchraddio, neu eu cyflymu er mwyn lleihau’r galw a chynyddu effeithlonrwydd a dylid cwblhau hyn erbyn mis Rhagfyr 2022.

# 6. Yr heriau mewn ardaloedd gwledig a’r sector rhentu preifat

Mae cyfraddau tlodi tanwydd yn uwch yng nghefn gwlad Cymru nag yn y dinasoedd. Mae proffil oedran eiddo gwledig hefyd yn eu gwneud yn fwy anodd eu hôl-osod.

Ychydig iawn o gymhelliant sydd gan landlordiaid yn y sector rhentu preifat i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo; ond mae’r diffyg gweithredu hwn yn debygol o achosi niwed sylweddol i iechyd a lles tenantiaid.

## Yr her mewn ardaloedd gwledig

**124.** Mae tlodi tanwydd yn wasgaredig ar draws cefn gwlad Cymru lle mae cyfran uwch o eiddo aneffeithlon o ran ynni sydd â waliau solet ac sydd oddi ar y grid. Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos amrywiaeth sylweddol yn y lefelau o dlodi tanwydd fesul awdurdod lleol, gweler **Tlodi Tanwydd fesul Awdurdod Lleol yng Nghymru, 2018**.


**125.** Amlygwyd cyfraddau uwch o dlodi tanwydd yn y dystiolaeth.[129]

**126.** Mae’r adroddiad ar dlodi tanwydd a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru yn 2019 yn nodi bod bron traean o aelwydydd gwledig Cymru yn defnyddio olew oddi ar y grid fel eu prif danwydd gwresogi, sy’n ddrutach na nwy o’r prif gyflenwad.[130]

**127.** Dywedodd Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, fod awdurdodau lleol gwledig fel Sir Gaerfyrddin, Powys, Conwy, Sir Ddinbych a Bro Morgannwg yn nodi tlodi tanwydd fel mater amlwg iawn[131] wrth baratoi eu hasesiadau llesiant diwygiedig.

[129] Cofnod y Trafodion, paragraffau 147-148 – 7 Mawrth 2022
[130] Archwilio Cymru, Tlodi Tanwydd – Hydref 2019
[131] Cofnod y Trafodion, paragraff 69 – 7 Mawrth 2022

**Tlodi Tanwydd yn ôl Awdurdod Lleol**
Cymru, 2018



**Tlodi Tanwydd:** Pob aelwyd
Canran a (nifer yr Awdurdod Lleolau)

Lai na 9% (6)
9% hyd at 12% (9)
12% hyd at 15% (2)
15% hyd at 18% (3)
Mwy na 18% (2)

**Ffynhonnell:** Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

**128.** Amlygodd Jonathan Cosson o Cymru Gynnes yr heriau i wella effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd fod gweithlu gyda'r sgiliau cywir yn tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd trefol lle mae cadwyni cyflenwi gwell. Roedd canfod yr eiddo sydd angen cymorth fwyaf hefyd yn fwy anodd mewn ardaloedd gwledig a nid yw awdurdodau lleol o reidrwydd yn gwybod y lefelau stoc a'r bobl sydd angen cymorth yn eu hardaloedd.[132]

**129.** Nododd Matthew Kennedy o Sefydliad Tai Siartredig Cymru fod hygyrchedd ac argaeledd contractwyr a gwasanaethau, a'r potensial ar gyfer costau uwch yn heriau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig.[133]

**130.** Amcangyfrifodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod tua 90,000 o aelwydydd yng nghefn gwlad Cymru sy'n dibynnu ar wres canolog olew, gan gynnwys rhai nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gridiau nwy neu drydan.[134]

**131.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod llawer o eiddo gwledig oddi ar y grid, yn dai sengl a/neu wedi'u hadeiladu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn anodd gwella eu heffeithlonrwydd ynni. Roedd yn dadlau mai un ateb fyddai i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i osod technolegau newydd fel pympiau gwres mewn cymunedau nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy.[135]

**132.** Awgrymodd y New Economics Foundation y byddai'n costio rhwng £25,000 a £30,000 ar gyfer gwelliannau ffabrig a phwmp gwres ffynhonnell aer ar gyfer eiddo nad yw wedi'i gysylltu â'r grid nwy.[136] O dan y Rhaglen bresennol, uchafswm y cyllid sydd ar gael i aelwyd nad yw wedi'i chysylltu â'r prif gyflenwad nwy yw £12,000. Galwodd y New Economics Foundation am well data ar gartrefi gwledig sy'n wynebu tlodi tanwydd, y mathau o dai, y mathau o ymyriadau sydd eu hangen i ddod â hwy allan o dlodi tanwydd, a strategaeth ymgysylltu a all ymdrin â'u hynysu cymharol.

## Y sector rhentu preifat

**133.** Cydnabu fod y ddarpariaeth bresennol i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat yn annigonol. Dywedodd y gwerthusiad swyddogol o Arbed:

[132] Cofnod y Trafodion, paragraff 68 – 14 Chwefror 2022
[133] Cofnod y Trafodion, paragraff 193 – 14 Chwefror 2022
[134] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[136] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol/New Economics Foundation, Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod

> *"Ychydig iawn mae rhaglen Arbed 3 wedi'i ganolbwyntio ar y sector rhentu preifat, er gwaethaf fod dull ar sail ardal ag amwysedd tuag at berchnogaeth mewn theori. Amcangyfrifir bod tua phedwar y cant o aelwydydd a dderbyniodd fesurau wedi bod yn y sector, er gwaethaf fod y sector hwn yn cyfrif am amcangyfrif o 20 y cant o aelwydd â thlodi tanwydd ledled Cymru, o gymharu ag 11 y cant o aelwydydd perchen-feddiannaeth."*[137]

**134.** Cafodd 43 y cant o eiddo rhent preifat yng Nghymru eu hadeiladu cyn 1919.[138] Cydnabu Matthew Kennedy o Sefydliad Tai Siartredig Cymru fod y sector rhentu preifat mewn cyflwr llawer gwaeth na mathau eraill o dai, yn enwedig tai cymdeithasol.[139] Awgrymodd y Sefydliad fod y gost o wella effeithlonrwydd ynni eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat yn debygol o fod yn afresymol i rai landlordiaid, yn enwedig landlordiaid llai sy'n llai tebygol o allu cario risg.[140]

**135.** Dadleuodd Victoria Winckler y dylid mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni gwael yn y sector rhentu preifat drwy safonau gwell a thynnodd sylw at waith ymchwil diweddar a ganfu nad oedd fawr o gydberthynas rhwng gradd EPC cartref a rhent y farchnad sy'n golygu nad oes llawer o gymhelliant ariannol i landlordiaid wneud eu heiddo yn fwy effeithlon o ran ynni.[141] Dadleuodd Dr Winckler fod y cynllun Arbed, drwy beidio â chynnwys pob deiliadaeth a phob amgylchiad yn yr un ffordd, wedi cynyddu anghydraddoldebau.[142]

**136.** Dywedodd Jonathan Cosson mai'r sector rhentu preifat mae'n debyg yw'r un sy'n cael ei adael ar ôl, oherwydd dyma'r un anoddaf i weithio ochr yn ochr ag ef, a dadleuodd am gyfuniad o safonau gwell a chymhellion fel grantiau a benthyciadau i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector.[143]

**137.** Roedd Dr Donal Brown o'r New Economics Foundation yn argymell 'dull abwyd a ffon' yn cynnwys cyllid gan y llywodraeth (ar ffurf benthyciadau cost isel), rheoliadau newydd i godi safonau, ac allgymorth wedi'i dargedu lle byddai llywodraethau (yn enwedig awdurdodau lleol) yn gweithio gyda landlordiaid ar atebion.[144]

**138.** Pwysleisiodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni y dylid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r sector rhentu preifat gan mai dyma'r sector sy'n perfformio waethaf o ran effeithlonrwydd ynni

---

[137] Llywodraeth Cymru/Miller Research, Gwerthusiad o Arbed 3 – 28 Chwefror 2022
[138] Ystadegau ar gyfer Cymru, Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: adroddiad penawdau (diweddaru)
[139] Cofnod y Trafodion, paragraff 177 – 14 Chwefror 2022
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Tai Siartredig Cymru
[141] Cofnod y Trafodion, paragraff 74 – 14 Chwefror 2022; Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[142] Cofnod y Trafodion, paragraff 83 – 14 Chwefror 2022
[143] Cofnod y Trafodion, paragraff 76 – 14 Chwefror 2022
[144] Cofnod y Trafodion, paragraffau 102-103 – 7 Mawrth 2022

ond cydnabu mai dyma'r sector mwyaf heriol o ystyried y pwerau cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru drosto.[145] Galwodd Jack Wilkinson-Dix ar ran yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar Lywodraeth Cymru i ystyried benthyciadau di-log i landlordiaid yn y sector rhentu preifat i ariannu mesurau effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy. Dywedodd Mr Wilkinson-Dix fod cynllun gan Lywodraeth yr Alban, y mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn rhan ohono, wedi bod yn effeithiol.[146]

**139.** Dywedodd Smart Energy GB y gall mesuryddion deallus helpu cwsmeriaid i reoli eu defnydd o ynni a'u biliau yn well ond nododd fod perchnogaeth gyson isel o fesuryddion deallus ymhlith rhentwyr.[147] Tynnwyd sylw at y ffaith bod landlordiaid ac asiantaethau gosod tai yn cael trafferth deall sut neu pam mae angen iddynt wneud eu heiddo'n fwy effeithlon o ran ynni, a pham y byddent yn ymgysylltu â'u tenant ar ynni, gan mai'r tenant sydd wedi bod yn gyfrifol am hyn yn draddodiadol.[148] Mae'n awgrymu defnyddio Rhentu Doeth Cymru i ddosbarthu cyngor i landlordiaid ar osod mesuryddion deallus ac effeithlonrwydd ynni; a chyngor i denantiaid ar y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd mewn perygl o dlodi tanwydd.

**140.** Amlygodd Ynys Môn fod gan y sector rhentu preifat y gyfran fwyaf o'r eiddo gradd F a G mwyaf aneffeithlon o ran ynni, sef 6.3 y cant a bod hyn yn cymharu â 0.7 y cant o dai cymdeithasol.[149]

## Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni

**141.** Mae Safon Ofynnol Effeithlonrwydd Ynni eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat yng Nghymru a Lloegr wedi'i gosod ar hyn o bryd yn EPC gradd E. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar godi'r safon ofynnol hon i EPC gradd C erbyn 2028. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2021.[150]

**142.** Tynnodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru sylw at y Safon Ofynnol Effeithlonrwydd Ynni fel llinell sylfaen y mae'n rhaid i landlordiaid weithio tuag ato ond ychwanegodd fod risg, o ystyried y costau y gallai cyflawni'r Safon ei olygu, fod landlordiaid yn dod yn anfodlon buddsoddi cyllid ychwanegol i wella eiddo y tu hwnt i hyn.[151]

[145] Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
[146] Cofnod y Trafodion, paragraff 193 – 7 Mawrth 2022
[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, Smart Energy GB
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, Smart Energy GB
[149] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ynys Môn
[150] Llywodraeth EM, Gwella perfformiad ynni cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat (Saesneg yn unig)
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Tai Siartredig Cymru

**143.** Dywedodd Gofal a Thrwsio Cymru fod eiddo rhent preifat ymhlith y safon isaf ac y gallai gwell amddiffyniad rheoleiddiol i denantiaid ynghyd â gorfodi gwell rheoliadau presennol megis safonau gofynnol effeithlonrwydd ynni helpu i liniaru hyn.[152]

**144.** Galwodd Gweithredu Ynni Cenedlaethol ar Lywodraeth y DU i fabwysiadu'n llawn y targed llymach o ran sgôr EPC gradd C erbyn 2028 ac am orfodi'r rheoliadau'n briodol. Galwyd am fynediad at gyllid i landlordiaid preifat gyrraedd targed EPC gradd C ac amlygwyd cynllun Grant Uwchraddio Cartrefi yn Lloegr fel model posibl.[153]

## Barn Llywodraeth Cymru

**145.** Cydnabu'r Gweinidog y cyfraddau uwch o dlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig a dywedodd fod y Rhaglen bresennol yn darparu ar gyfer cyllid ychwanegol i gartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy. Roedd mesurau eraill a amlygwyd fel rhai sydd o fudd i ardaloedd gwledig yn cynnwys newidiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn helpu i dalu am olew a nwy hylifol (ar gyfer cwsmeriaid oddi ar y grid), ochr yn ochr â Chynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru a thaliad costau byw o £150.[154]

**146.** O ran y sector rhentu preifat, tynnodd y Gweinidog sylw at ymgynghoriad diweddar Llywodraeth y DU ar newidiadau i'r Safon Ofynnol Effeithlonrwydd Ynni a dywedodd fod Rhentu Doeth Cymru a'r cynllun Nyth yn cydweithio i annog landlordiaid i wella eu heffeithlonrwydd ynni domestig.[155]

### Ein barn ni

Mae ystadegau swyddogol yn cadarnhau mai siroedd gwledig Cymru sydd â'r lefelau uchaf o dlodi tanwydd. At hynny, mae gan ardaloedd gwledig heriau unigryw sy'n gwneud mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yn fwy cymhleth nag mewn trefi neu ddinasoedd. Mae'r rhain yn cynnwys maint a phroffil yr eiddo, sy'n debygol o fod yn fwy o faint, yn hŷn, ac o wneuthuriad wal solet. Mae eiddo mewn ardaloedd gwledig hefyd yn fwy dibynnol ar olew a nwy oddi ar y grid, y mae ei bris wedi'i ddadreoleiddio a gall fod yn ddrutach na'r hyn sy'n cyfateb i'r prif gyflenwad. Nid oes gan gefn gwlad Cymru ychwaith rai o'r adnoddau sydd ar gael mewn canolfannau trefol, gan gynnwys mynediad at weithlu sydd â'r sgiliau cywir, a chadwyni cyflenwi sydd â'r offer gorau. Er gwaethaf hyn, ni wnaed unrhyw ymdrech hyd yma i greu cefnogaeth arbenigol neu gefnogaeth wedi'i thargedu sy'n diwallu anghenion penodol

[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal a Thrwsio Cymru
[153] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu Ynni Cenedlaethol
[154] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2
[155] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, eitem 2

cefn gwlad Cymru. Credwn fod yr amser wedi dod i Lywodraeth Cymru ystyried cynllun penodol sy'n targedu anghenion y rhai sy'n wynebu tlodi tanwydd yng nghefn gwlad Cymru.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun effeithlonrwydd ynni i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig. Dylai'r cynllun hwn gynnwys cynllun ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r heriau penodol a wynebir mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys:

- prinder sgiliau angenrheidiol mewn gweithluoedd lleol;
- materion o ran y gadwyn gyflenwi;
- y gyfran uwch o eiddo oddi ar y grid, sy'n fwy anodd eu trin.

**Y sector rhentu preifat**

Mae'r sector rhentu preifat yn cael ei adael ar ôl yn y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd. Ychydig iawn o denantiaid yn y sector rhentu preifat sydd wedi cael budd o'r Rhaglen bresennol. Mae'n annhebygol y bydd grymoedd y farchnad yn llenwi'r bwlch – mae gwaith ymchwil yn yr ymchwiliad hwn wedi canfod nad oes llawer o gydberthynas rhwng effeithlonrwydd ynni eiddo a chyfraddau rhent y farchnad. Felly nid oes llawer o gymhelliant ariannol i landlordiaid wella effeithlonrwydd ynni a chlywsom bryderon y gallai'r costau fod yn afresymol i rai landlordiaid llai.

Rhaid i'r ateb fod ar ffurf cyfuniad o fesurau sy'n ymwneud â chymhellion, safonau, ac ymgysylltiad neu fel y nododd un tyst - dull 'abwyd a ffon'.

Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio ar frys ddichonoldeb cymhellion ariannol ar ffurf benthyciadau ar gyfraddau cystadleuol iawn, yn debyg i'r cynllun sydd ar gael yn yr Alban.

Oni bai bod camau'n cael eu cymryd i godi safonau, mae'r sector rhentu preifat mewn perygl o fynd ymhellach fyth ar ei hôl hi. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i weithredu ar gynigion i gynyddu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni i EPC gradd C ac, os nad yw'n fodlon gweithredu, ymchwilio i roi safonau uwch ar waith yng Nghymru yn unig. Beth bynnag fo statws y cynigion, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol gyfundrefn ddigonol o arolygu a gorfodi safonau gofynnol a gweithio gyda hwy i wella capasiti os oes angen.

Yn olaf, dylid gwneud mwy i ymgysylltu landlordiaid â gwybodaeth a chanllawiau. Rhaid i'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd wella'r cyngor y mae'n ei gynnig i denantiaid yn y sector rhentu preifat a landlordiaid preifat.

Nodwn fod Rhentu Doeth Cymru a'r cynllun Nyth yn cydweithio ond mai ychydig o welliant a welwyd yng nghyfraddau tlodi tanwydd y sector rhentu preifat. Credwn fod lle i Rhentu Doeth Cymru nid yn unig fod yn sianel ar gyfer ymgysylltu rhwng y Rhaglen Cartrefi Clyd a'r sector ond hefyd chwarae rhan fwy gweithredol yn iteriad nesaf y Rhaglen.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru wella effeithlonrwydd ynni drwy gyfuniad o gymhellion, safonau ac ymgysylltiad.

- Er mwyn cymell gweithredu, dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r TAW bresennol ar gyfradd sero ar fesurau inswleiddio ac archwilio dichonoldeb cynllun benthyciadau effeithlonrwydd ynni ar gyfer landlordiaid yn y sector rhentu preifat.
- Er mwyn gwella safonau, dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i weithredu ar gynigion i gynyddu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni i EPC gradd C erbyn 2028 ac, os nad yw'n fodlon gweithredu, ymchwilio i roi safonau uwch ar waith yng Nghymru yn unig.
- Er mwyn ymgysylltu'n well â'r sector, dylai'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd gynnwys gwell cyngor a chanllawiau sy'n targedu'n benodol landlordiaid yn y sector preifat a'u tenantiaid.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Rhentu Doeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf gyda'r bwriad o ddefnyddio'r corff hwnnw fel cyfrwng i ymgysylltu â'r sector rhentu preifat ar effeithlonrwydd ynni a mesuryddion deallus ochr yn ochr â nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd y gwaith hwn erbyn mis Tachwedd 2022.

# Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **7 Chwefror 2022** | **Adrian Crompton**<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>**Matthew Mortlock**<br>Archwilio Cymru<br>**Mark Jeffs**<br>Archwilio Cymru |
| **14 Chwefror 2022** | **Jonathan Cosson**<br>Cymru Gynnes<br>**Dr Victoria Winckler**<br>Sefydliad Bevan<br>**Elliw Llyr**<br>Strategaeth Tai - Cyngor Sir Ynys Môn<br>**Matthew Kennedy**<br>Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| **7 Mawrth 2022** | **Sophie Howe**<br>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>**Dr Donal Brown**<br>New Economics Foundation<br>**Ben Saltmarsh**<br>National Energy Action<br>**Jack Wilkinson-Dicks**<br>yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni |
| **21 Mawrth 2022** | **Jane Hutt**<br>Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br>**Steve Chamberlain**<br>Arweinydd Polisi Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd, Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Mark Alexander**<br>Pennaeth Datgarboneiddio, Arloesedd a Thlodi Tanwydd y Sector Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru<br>**Mark Jeffs**<br>Archwilio Cymru<br>**Chris Pugh**<br>Archwilio Cymru<br>**Seth Newman**<br>Archwilio Cymru |

# Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld ar wefan y Pwyllgor. Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i ymgynghoriad y Pwyllgor:

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **FP1** | Age Cymru |
| **FP2** | Sefydliad Bevan |
| **FP3** | Gofal a Thrwsio Cymru |
| **FP4** | Smart Energy |
| **FP5** | Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn |
| **FP6** | Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni |
| **FP7** | Marie Curie Cymru |
| **FP8** | Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| **FP9** | Cymru Gynnes |
| **FP10** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **FP11** | Localgiving |
| **FP12** | National Energy Action Cymru |
| **FP13** | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| **FP14** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |